

ECO'r Wyddfa

Rhif: 444
Mehefin 2016
Pris: 70c

Piano newydd i Antur Waunfawr



Dros y blynyddoedd, mae Annette Bryn Parri o Ddeiniolen wedi cyfeilio i gantorion enwog ar lwyfannau yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys – Bryn Terfel, Aled Jones, Gwyn Hughes Jones a Rhys Meirion. Mae hi hefyd wedi rhyddhau dwy CD sy'n cynnwys unawdau piano, a thair CD gyda Dylan Cernyw (Piantel). Bu'n cyfeilio i Hogia'r Wyddfa am 25 mlynedd, ac yn 2012, sefydlodd driawd lleisiol newydd o'r enw 'Trio', ac mae Trio wrthi'n recordio eu hail albwm.

Ond tybed faint o ddarllenwyr yr Eco sy'n ymwybodol o'r ffaith fod Annette wedi gwneud llawer o waith cerddorol gyda phlant ac oedolion gydag anawsterau ac anabledau dysgu? Am rai blynyddoedd, bu'n gweithio yn Ysgol Pendalar, Carnarfon ac Ysgol y Bont, Llangefni. Yn ddiweddar, mae wedi bod yn cynnal sesiynau cerdd gydag oedolion sydd yn dysgu ac yn gweithio yn Antur Waunfawr.

Er mwyn hyrwyddo'r gwaith pwysig hwn, prynodd Hannah Roberts, mam Annette, Olwen a Marina biano drydan newydd

i'r Antur – er cof am ei gŵr, Evan Bryn Roberts, Ty'r Ysgol, Dinorwig, a fu farw yn 2011.

Chwarelwr oedd Evan ond 'roedd cwmni ei deulu a chanu yn bwysig iawn iddo. Ar wahan i ganu unawdau mewn cyngherddau, bu'n aelod o Gôr y Penrhyn, Côr Meibion Dyffryn Peris a Chôr y Traeth.

'Roedd y croeso yn yr Antur i Hannah a'i theulu, ar brynhawn braf ym mis Mai, yn un cynnes, gyda llawer o edrych ymlaen i ganu, gydag Annette yn cyfeilio ar y biano newydd.

Wrth fynegi ei gwerthfawrogiad o'r rhodd arbennig yma, sydd wedi ei lleoli yng Nghapel Bethel ar ei newydd wedd, dywedodd Menna Jones (Prif Weithredwraig Antur Waunfawr) – “Gosodwyd plac bychan ar y piano i nodi ei fod er cof am Evan Bryn Roberts ac mi fyddwn yn cael ein hatgoffa o'r rhodd gwerthfawr yma bob tro y bydd defnydd o'r biano, am flynyddoedd lawer. Diolch yn fawr iawn i'r teulu a bydd croeso arbennig iddynt bob amser yn Antur Waunfawr”.

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Gorffennaf/Awst

Copi i law
Mehefin 19

Bwndelu
Gorffennaf 1

Ble
Bethel

RHIF 444
Mehefin 2016
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Llwybr Llechi Eryri

Mae Grŵp Gweithredu Cymunedol Cwm Penmachno yn gobeithio hyrwyddo llwybr cerdded 85 milltir drwy bentrefi llechi Gwynedd a Chonwy gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd economaidd a busnes i bobl leol. Ar hyn o bryd, rydym wedi codi bron i £30,000 at y prosiect ac yn aros am ganlyniad ein cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am tua £55,000 i gwblhau'r prosiect. Rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd fel partner treftadaeth, ac yn agos iawn gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, Cyngorau Conwy a Gwynedd, Cymdeithas Cerddwyr Cymru a Chymdeithas Eryri, yn ogystal â nifer o grwpiau a mentrau cymunedol. Yn ogystal â'r gwaith ymarferol o sefydlu'r llwybr i safon, a fydd yn dilyn llwybrau cyhoeddus, a chyhoeddi arweinyfr rydym yn gobeithio cynnal nifer o weithdai cymunedol i hel atgofion, ffotograffau a chreiriau yn gysylltiedig ag ardal y llechi. Bydd y deunydd a fydd yn cael ei hel yn cael ei rannu gyda phobl ifainc iddyn nhw ddethol ohonynt ar gyfer gwefan y Llwybr, 'app' i ddefnyddwyr ei lawrlwytho a chyfres o baneli dehongli a fydd ar gael i ysgolion, lleoedd a digwyddiadau cymunedol.

Hyd yn hyn mae pump grŵp wedi dod ymlaen i gymryd rhan yn y prosiect;

Merched y Wawr, Penmachno

Côr Meibion y Penrhyn

Seindorf Arian Deiniolen

Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog

Grŵp Datblygu Y Fron

Fodd bynnag, byddwn yn croesawu mewnbwn gan grwpiau neu unigolion eraill yn y cymunedau hyn. Os ydynt yn dymuno ymuno â'r gweithdai a byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb. Os bydd y cyllid yn cael ei gyflawni, y bwriad yw i gychwyn y prosiect cymunedol ym mis Medi 2016 i'w gwblhau yn mis Hydref.

Os oes gennych atgofion, lluniau, straeon, tameidi o wybodaeth neu bethau cofiadwy sy'n gysylltiedig â'r diwydiant neu'r diwylliant llechi lleol, ac yn dymuno cymryd rhan, yn y gobaith y bydd y prosiect yn digwydd, cysylltwch naill ag Aled Owen, 01690 760112, (aledocwm@uwclub.net) neu Sian Shakespear, 07890 613933, (info@sianshakespear.co.uk).

Cefndir y prosiect

Roedd diwydiant llechi Eryri yn un o bwrdai y chwyldro diwydiannol, gan ddarparu toeau ar gyfer adeiladau ar draws y byd. Roedd hefyd yn sail i ddatblygiad yr undebau llafur a Streic Fawr y Penrhyn - yr hiraf a mwyaf chwerw hyd at heddiw.

Yn aml, perthynas cariad / casineb oedd rhwng pobl leol a'u chwareli. Roeddynt yn casáu llawer o'r amodau gwaith, ond wrth fyw a dioddef gyda'i gilydd datblygodd ymdeimlad o gymuned ac o berthyn agos. Y cyfan sydd ar ôl o'r holl weithgarwch a ffordd o fyw yw ambell i chwarel sydd dal i weithio ac olion helaeth. I lawer o bobl, maent wedi

cael eu magu i weld y tomenni llechi ac adeiladau segur fel dolur llygad ar eu tirwedd ondd, i eraill, mae'r rhain yn waddol pwysig o'r diwydiant, ar wahân i'r atgofion, straeon a phytiau gwybodaeth all ddiflannu'n llwyr cyn bo hir. Gall rhain hefyd gynnwys dywediadau, enwau lleoedd, traddodiadau ac arferion er enghraifft, pwys a wŷr bod Allt Doli ym Mhenygroes yn deillio o "pedoli" a'r wagenni llechi a dynnwyd gan geffylau ar hyd tramffordd Nantlle, neu ddylanwad y "chwarel swpar" ar fywydau menywod. Bydd y prosiect hwn yn ceisio dwyn ynghyd yr elfennau anweledig yma.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar gyfnewid

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£25: Er Cof am Hugh Fôn Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail.

£20: Er cof am Meurig gan Mary, Dwynwen, Tudur, Gareth a'r teulu; Er cof am Mrs Jennie Hughes, Brynrefail.

£13.30: Môn roddion ardal Dinorwig.

£12: Rheon Tomos, Caerdydd.

£10: Brian Price, Hafod Olau, Deiniolen.

£5 Glenys Owen, 9 Snowdon Street, Llanberis; Elsie Owen, Hafod Rhos, Llanrug.

£3: Di-enw Llanrug; Di-enw Llanrug;

gwybodaeth a phrofiad o ddiwydiant llechi Gogledd Eryri rhwng cenedlaethau, yn ogystal â chyflwyno ein treftadaeth gyfoethog i'n hymwelwyr o weddill Prydain a thramor, gan arwain at ddathlu ein etifeddiaeth gymdeithasol bwysig. Bwriedir hefyd gwarchod atgofion bywyd go iawn er lles cenedlaethau'r dyfodol, a rhoi cipolwg ar y diwylliant unigryw a oedd, ac yn dal i fod, wrth wraidd ein datblygiad cymdeithasol.

Aled Owen

Ysgrifennydd Grŵp Gweithredol Cymuned Cwm Penmachno

HELFA DRYSOR HEN FFOTOGRAFFAU BRO ‘ECO’R WYDDFA’



Yn ystod Mis Gorffennaf eleni mae ‘Cynllun Cerdded a Darganfod’ Menter Fachwen yn cynnal mis o weithgareddau arbennig fel rhan o ‘Wyl Darganfod’, gyda’r bwriad o’i chynnal bob blwyddyn. Cewch fanylion llawn yr Wyl yn rhifyn nesaf yr Eco, ond fel rhagflas o’r Wyl mae yna gyfle cynnar i chi gymryd rhan mewn cystadleuaeth go arbennig. Mae’r Cynllun wedi casglu nifer o hen luniau o fro’r ‘Eco’ a’r gamp yw i chi ddarganfod ble tynnwyd y lluniau, eu hail dynnu ar eich camerau neu ffonau symudol. I chi sydd heb y technolegau newydd, mae croeso i chi gystadlu dim ond wrth ysgrifennu eich atebion a’u danfon i Menter Fachwen. Dyma rhagflas o rhai o’r lluniau ond mae 20 i gyd ac i gasglu

eich copiau ewch i siop Menter Fachwen yn Llanberis, Caffi EBs yn Deiniolen, Caffi Cwm y Glo neu Siop Wavell, Llanrug ar ol Gwener 17ed o Fehefin. Hefyd ar ol y dyddiad hwnnw bydd modd i chi weld y lluniau ar tudalen ‘Facebook’ Menter Fachwen neu danfonwch amlen A5 gyda stamp arno i ‘Menter Fachwen’, Ty Caxton, 52 Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd LL55 4EU. Bydd yr atebion yn cael eu datgelu yn ystod diwrnod o sioeau hen luniau yng Nghanolfan a Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr yn Llanberis ar Ddydd Mercher 27ain o Orffennaf. Mae dros gwerth £50 o wobrwyon ar gael.

Gair gan y Golygydd

“Yng ngenau’r sach mae cynilo.” Fel y gwelwch, mae’r rhifyn hwn wedi ei gwtogi i 24 tudalen yn unig. Daethpwyd i’r penderfyniad yn dilyn cyfarfod o bwyllgor yr “Eco” yn gynharach yn y mis. Cafwyd ar ddeall y byddai’r “Eco” yn wynebu colled ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Y prif reswm am hyn yw lleihad sylweddol yn nifer y rhai sy’n hysbysebu’n rheolaidd yn y papur. Dros y blynyddoedd bu busnesau lleol yn gefnogol iawn i’r papur, a mawr yw ein diolch iddynt am y gefnogaeth ariannol honno.

Bellach, mae’r amgylchiadau economaidd presennol yn gwasgu, a chollwyd hyd yn oed hysbysebion cwmnïau mawr megis S4C. Rydym yr un mor ddiolchgar hefyd i’r rhai sy’n cyfrannu rhoddion ariannol i’r “Eco”. O dorri maint y papur i 24 tudalen, gallwn ymdopi, a chadw dau ben llinyn ynghyd. Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu fod wyth tudalen yn llai o ddeunydd darllen yn y papur, sy’n achosi tipyn o gur pen golygyddol! Mae tudalennau “O’r Cynghorau” wedi eu hepgor y mis hwn. Ers

nifer o flynyddoedd mae adroddiadau/cofnodion llawn ein Cynghorau Cymuned wedi eu cynnwys, a hynny er apelio am grynodedb. Mae croeso i ohebwyd y Cynghorau Cymuned anfon **crynodedb** **byr** o’r prif benderfyniadau ar gyfer y rhifyn nesaf, ac i’r darllenwyr sydd â gwirioneddol ddiddordeb yn holl drafodaethau eu cyngor lleol, mae’r cofnodion llawn i’w cael ar eu gwefannau. Yn ystod yr wythnosau sy’n arwain at ddyddiad cau gohebiaeth yr “Eco” derbynir

rhai degau o luniau. Ni fydd yn bosib cynnwys cymaint o hyn ymlaen, ond bydd unrhyw lun na chaiff ei gynnwys yn y papur yn cael ei arddangos ar wefan yr “Eco”. Gall hyn ddigwydd hefyd gyda rhai storïau/ adroddiadau, yn enwedig os byddant wedi dyddio. Bydd ein colofnwyr rheolaidd yn aros, ac yn parhau i gyfrannu deunydd diddorol i chwi’r darllenwyr. Yn anffodus, “diwedd y gân yw’r geiniog”, ond o arbed arian rwan, gallwn osgoi argyfwng ariannol yn y dyfodol.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Fe ddaeth, ac fe aeth yr etholiad, a hynny heb fawr o gynnwrf. Mae’r map etholaethol yn aros fwy neu lai yn ddigwyfnewid, ond enillodd UKIP seddau rhanbarthol yn y Senedd am y tro cyntaf. Y blaid oedd am ddiddymu’r Senedd bellach yn rhan ohoni! Ac fe ddaeth y cynnwrf cyntaf o rengoedd y blaid honno wrth iddynt ddewis eu harweinydd, a Nathan Gill yn cael sgŵd go hegar gan benelin Neil Hamilton. Daeth yr ail gynnwrf mewn pleidlais i ddewis yr Arweinydd, gyda Carwyn Jones a Leanne Wood

yn gyfartal, a phob math o honiadau a chyhuddiadau yn cael eu taflu gan yr holl bleidiau ynglŷn â’r sefyllfa. Wythnos yn ddiweddarach – wedi taro bargaen/bargeinion (?) – etholwyd Carwyn Jones i’r swydd. Efallai y bydd trydydd cynnwrf wedi digwydd erbyn i chwi dderbyn y copi hwn o’r “Eco”; ond peidiwch a dal eich gwynt.

- Cafodd baner y ddraig goch flwyddyn go stormus. Gwrthod ei harddangos ar drwyddedau gyrru, a Gwasg Y Lolfa yn cynhyrchu sticeri fyddai’n ffitio ar drwydded

gyrru pob gyrrwr Cymreig twymgalon. Yna, trefnwyr cystadleuaeth Cân i Ewrop yn gwrthod caniatad i arddangos y faner (ar sail gwleidyddol), er fod Cymro o Rhuthun yn cystadlu; cyn newid eu meddyliau’n ddiweddarach, a rhoi’r caniatad hwnnw. A chân (wleidyddol?) o’r Wcrain yn ennill y cystadleuaeth.

- Cymdeithas Eryri yn beirniadu’r Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â’r modd y caniatawyd i waith trydan-hydro gael ei baratoi ar Afon Las uwch Nant Peris. Mae’n ymddangos nad

pysgotwyr yr ardal yn unig sy’n anobeithio ynglŷn â rhai o benderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Bu rhaglen ‘Countryfile’ BBC yn ffilmio ar Yr Wyddfa, gyda Ben Mounsey (enillydd Ras Moel Eilio eleni) yn rasio’n erbyn y tren. Yn ystod y daith, bu John Craven yn holi Ken Jones (sefydlydd Ras Yr Wyddfa), Stephen Edwards (Trefnydd y ras eleni) a Kenny Stuart, sy’n dal y record am y ras. I weld y rhaglen – a chael canlyniad y ‘ras’, gwyliwch Countryfile ar nos Sul, 29ain o Fai am 7.00.

Ysgol Dolbadarn



Coed Doctor

Bu disgyblion Blwyddyn 3 ar daith gerdded i Goed Doctor er mwyn astudio cynefinoedd ac arsylwi ar arwyddion y Gwanwyn. Diolch o galon i Swyn Spencer o Gyfoeth Naturiol Cymru am ein tywys.

Taith Tŷ Hyll

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 2 ddiwrnod i'w gofio yn y tŷ Hyll yn ddiweddar yn astudio trychfilod ac anifeiliaid gwyllt yn yr ardal leol. Diolch i Gymdeithas Eryri am dalu costau'r diwrnod.

Sports Relief

Gwisgodd y disgyblion ddillad chwaraeon ar gyfer y diwrnod a bu pob dosbarth yn brysur ar y buarth yn treialu gwahanol weithgareddau. Llwyddwyd i godi swm da o arian ar gyfer yr elusenedigolch i bawb am eu cefnogaeth.

Glan Llyn

Bu criw brwdfrydig o ddisgyblion

Blwyddyn 5+6 yng ngwersyll Glan Llyn yn ddiweddar fel rhan o benwythnos Eryri. Daethant yn ô yn flinedig ac wedi cael amser wrth eu boddau- diolch yn fawr iawn i staff yr ysgol am wirfoddoli i'w goruchwyllo yn ystod y penwythnos.

Pêl droed yr Urdd

Bu i'r genethod a'r bechgyn gystadlu mewn twrnament yn ddiweddar fel rhan o weithgareddau'r Urdd. Yr oedd yn wych eu gweld yn cydweithio mor dda ac yn ymdrechu mor galed. Diolch hefyd i Rieni a Chyfeillion yr ysgol am eu rhodd caredig tuag at ariannu festiau newydd i'r ysgol.

Traws Gwlad yr Urdd

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd yn Stad Y Faenol yn ddiweddar. Da iawn i bawb am allu gorffen y ras a diolch arbennig i Rieni a Chyfeillion yr ysgol am eu rhodd arbennig i brynu festiau rhedeg i'r ysgol. Cafwyd sawl sylw am edrychiad proffesiynol y rhedwyr!

Ymweliad awdures Angharad Tomos

Cafodd Blwyddyn 5+6 sgwrs arbennig gan yr awdures Angharad Tomos yn ddiweddar. Bu'n son am ei gwaith a bu'n llofnodi llyfrau y disgyblion fel cofnod o'r diwrnod. Yr oedd y disgyblion wedi llunio cwestiynau o flaen llaw ac yn amlwg wedi dysgu ffeithiau

diddorol iawn am yr awdures. Prynwyd llyfrau ar gyfer yr ysgol yn ystod yr ymweliad yn ogystal.

Diwrnod Golchi- Amgueddfa Lechi

Mwynhaodd ddisgyblion Blwyddyn 1+2 ddiwrnod braf yn yr Amgueddfa Lechi yn dysgu am draddodiadau diwrnod golchi yng nghwmni Rhian Cadwaladr. Bu'r plant yn brysur iawn yn creu sebon eu hunain a braf oedd eu gweld wedi mwynhau'r daith gerdded i ochr arall y llyn ar ddiwrnod braf o Wanwyn.

Parc Cenedlaethol Eryri

Daeth Carwyn Ap Dafydd a swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i'r ysgol i drafod gwaith y Parc ac i gerdded y disgyblion hynaf draw i Hafod i gyfarfod Jo a Fiona Davies er mwyn deall yr hyn sydd yn pryderu y ffermwr yn yr ardal leol. Yr oedd y disgyblion wedi mwynhau yn arw ac wedi dysgu llawer am eu cynefin ac wrth eu boddau yn gweld anifeiliaid y fferm.

Foryd/ Cadw Cymru'n Daclus

Bu disgyblion Blwyddyn 3 ar daith i Gaernarfon fel rhan o ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus yn ddiweddar er mwyn dysgu am effaith sbwriel ar yr arfordir. Daeth swyddog Y Foryd atynt hefyd am sgwrs i son am yr adar sy'n ymgynefino yn yr ardal yn ystod y flwyddyn.

Gwaith Cartref Swnllyd!

Bu disgyblion hynaf yr ysgol yn brysur iawn yn ddiweddar yn creu offerynnau cerdd fel rhan o'u hastudiaethau ar Sain mewn Gwyddoniaeth. Yr oedd rhaid creu offeryn oedd yn newid traw. Cafwyd offerynnau anhygoel, unigryw a diddorol- diolch iddynt i gyd am eu gwaith caled a diolch i rieni hefyd am eu cynorthwyo. Mae gennym gerddorfa arbennig iawn yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Diolchiadau

Diolch i bawb a fynychodd y cyflwyniad Diogelwch y We gyda PC Dylan yn ddiweddar- daeth dros 20 o rieni i ddysgu mwy am sut i gadw eu plant yn ddiogel wrth ddefnyddio gemau cyfrifiadurol a gwefannau megis Facebook. Diolch PC Dylan am gynnal noson o'r fath.

Hoffai'r Ysgol ddiolch i Rieni a Chyfeillion yr ysgol am eu gwaith caled parhaol er mwyn codi nawdd ar gyfer yr ysgol. Cafwyd rhodd caredig i dalu am y bysiau ar gyfer cludo y plant i'r Panto eleni. Yn ogystal cafwyd rhodd hael iawn er mwyn prynu festiau a 'chit' chwareon newydd ar gyfer cytadlaethau megis rygbi ac athletau. Mae'r plant wedi gwirioni ac yn edrych yn hynod o smart ynddynt.



E Parhad LLANBERIS W

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bel Bonws am fis Ebrill oedd Nicola Roberts-Baylis.

Diolch Dymuna Glenys Owen, 9 Snowdon Street, ddiolch yn fawr iawn i’w ffrindiau a’i chymdogion am y cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed ar Ebrill 11eg.

Cydymdeimlad: Cafwyd teyrnged yn rhifyn diwethaf yr Eco i Mrs Gwyneth Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffordd Padarn a fu farw ar Fawrth 26. Cydymdeimlwn â’i phriod, Eifion, ei merched Sioned a Nia, a’r teulu cyfan yn eu profedigaeth annisgwyl a’u colled fawr. Ers blynyddoedd, Gwyneth ac Eifion fu’n gyfrifol am gasglu newyddion pentref Llanberis ar gyfer yr Eco, a bu hwnnw’n wasanaeth gwirfoddol, gwerthfawr i’r pentref a’r papur. Dechreuodd wneud y gwaith hwn ar gyfer rhifyn Ebrill 1990, pan oedd hi ac Eifion yn cynnal busnes teuluol Becws Eryri. Daliodd i’w wneud wedi iddi ymddeol dair blynedd ar ddeg yn ôl. Dyna felly dros chwarter canrif o wasanaeth tawel a diflino i’r papur hwn, ac y mae holl ddarllenwyr yr Eco yn Llanberis yn ddyledus iddi am ei gwaith a’i chymorth.

OEDFAON CAPEL COCH

Mehefin Sed: 10yb a Syh Parchedig Richard O. Jones

Mehefin 12fed: 10yb Y Gweinidog; Syh Oedfa Moli

Mehefin 19eg: 10yb a Syh Parchedig Huw Pritchard

Mehefin 26ain: 10.30yb Oedfa Deulu

Gorffennaf 3ydd: 10yb a Syh Parchedig Dafydd Lloyd Hughes

Gorffennaf 10fed: 10yb Y Gweinidog; Syh Oedfa Moli

Gorffennaf 17eg: 10yb Mrs Nerys Griffiths; Syh Parch. Dewi T. Morris

Gorffennaf 24ain: 10yb Gwilym Charles Williams; Syh Dim Oedfa

Gorffennaf 31ain: 10yb Oedfa; Syh Parchedig Geraint Roberts

E CWMY GLO W

Tymor yr Arholiadau Dymuniadau gorau i blant y pentref yn eu arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Linda Jarvis a’r teulu, Stable Cottage, Bwlch, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, David Jarvis.

Croeso Adref i Alison a’i merch fach, Seren, merch a wyres fach Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, sydd adref am wyliau o’r Unol Daleithiau.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Ellie a Dion Owen, Ty’n y Maes, ar enedigaeth eu mab bach, Joseff John, ar Fai 14eg. Mae yn wŷr i Elsie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug ac i Cheung a Sui Ping o Fangor.

Newid Aelwyd Croeso i Gethin Roberts ac Ellie Boal sydd wedi symud o Geunant i ymgartrefu yn Bryn Difyr, Cwm y Glo, a’r ddau wrth eu boddau.

Undeb y Mamau

Cyfarfu’r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair, brynhawn Mawrth, 17eg o Fai. Croesawyd pawb i’r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr yng ngofal Mrs Louie Jones. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Jini Jones, Iris, Katie, Mrs Irona Morgan a Mrs Idris Thomas.

Cafwyd adroddiad gan Auriel Howels am y cyfarfod a gafwyd fis Ebrill a thrafodwyd y materion perthnasol.

Dangosodd Joyce Ransom y brodwaith oedd hi wedi ei wneud ar y boced sydd i’w gosod ar y faner yn y Gadeirlan. Ar gefndir glas roedd Yr Wyddfa, Lili’r Wyddfa a’r Gadeirlan.

Croesawyd y wraig wadd, Buddug Jones a Freya, ei chi tywys, gan Hilda. Soniodd Buddug fel yr oedd ei bywyd wedi newid ar ôl iddi gael Freya yn gi bach 18 mis oed, ond nawr yn chwech, ac fel roedd yn dibynnu’n llwyr arni i fynd o gwmpas. Mwynhawyd ei sgwrs yn fawr iawn.

Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Louie Jones. Rhoddwyd y raffl ganddi, a’r enillydd oedd Bet Owen. Diolchwyd i Louie a Buddug gan Hilda.

Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21ain o Fehefin.

E BETHEL W

Clwb Bro Bethel Yng nghyfarfod mis Mai cawsom orig ddifyr iawn yng nghwmni Gareth Ffowc Roberts, Bangor, un sydd wedi ymddiddori ac arbenigo ymhob agwedd o fathemateg drwy gydol ei oes. Yn dilyn croeso gan y Llywydd cydymdeimlwyd yn fawr iawn ag Anne Elis a’r teulu yn dilyn marwolaeth Geraint, Is-Lywydd y Clwb. Anfonwyd cofion hefyd at Gwyneth Williams sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Bu Gareth Roberts yn sgwrsio'n ddifyr ar gyfres o lyfrau oedd â diddordeb iddo fo yn bersonol a soniodd yn benodol am Robert Recorde un a aned yn nechrau'r 1500. Roedd ei yrfa yn cwmpasu cyfuniad cymhleth fel mathemategydd, seryddwr a meddyg, ond cafodd ei brif gynhaliaeth yng ngwasanaeth y Goron gan oruchwylio, mwngloddio a bathu arian. Mae'n fwyaf adnabyddus am ddyfeisio'r arwydd hafal =, gan ddewis dwy linell baralel, ac yn ei eiriau ei hun, 'bicause noe 2 thyngs, can be moare equalle'.

Diolchwyd iddo am sgwrs ddiddorol iawn gan Richard Ll. Jones.

Y trip pentymor fydd nesaf a hynny ar ddydd Mawrth, Mehefin 7fed. Rhowch wybod i Mary Wyn Jones os am ddod ar y trip. Croeso i rai sydd ddim yn aelodau ymuno ar y daith a chyfrannu £5 tuag at gost y bws.

Noson Lawen Cynhaliwyd Noson Lawen lwyddiannus iawn yng Nghapel Y Cysegr ar nos Sul, 24ain o Ebrill yng nghwmni Sioned Terry a’i chyfeilyddes, Annette Bryn Parri. Yn ogystal, cafwyd eitemau gan blant a phobl ifanc y pentref ac arweiniwyd y noson gan Manon Gwynedd. Gwnaethpwyd elw o £608. Rhoddir £300 at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru a’r gweddill at Eisteddfod Bethel. Dymuna Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch o galon i bawb a gymerodd ran ac i bawb a gefnogodd y noson.

Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar y 15fed o Hydref.

Merched y Wawr Croesawyd pawb gan Mair. Estynnwyd ein llongyfarchiadau: i Eirlys ar ddyweddiad Ffion; i Gwyneth ar ddod yn nain i Nel Mai; i Glenys ar gystadlu yn yr Wyl Haf ac i Ann ar gael ei hethol yn is-ysgrifenyddes cenedlaethol.

Croesawyd y gŵr gwadd, Rhys Mwyn, a ddaeth i’r amlwg fel aelod o’r grŵp pync 'Anrhefn'; yn hyrwyddwr grwpiau Cymraeg ac yn ddarlledwr ond heno i drafod Archaeoleg. Fe'n diddanwyd a'n haddysgwyd am 'Beth yw Archaeoleg?'

Difyr oedd gwrando ar Rhys yn egluro sut mae cloddio ac astudio gwrthrychau a ddarganfyddir yn dweud stori. Aeth â ni i safle cloddio Meillionnydd ym Mhen Llŷn, ble mae myfyrwyr o dan ei arweiniad yn cloddio bob haf er mwyn darganfod sut roedd ein cyndeidiau yn byw 2,500 o flynyddoedd yn ôl.

Gwnaethpwyd y ddisgled gan Lis a Mary ac fe enillwyd y raffl gan Anwylyd. Y mis nesaf cawn daith ddirgel fydd yn cynnwys orig ddifyr o ddarganfod a swper. Bydd y bws yn gadel Tan y Buarth am 5.15.

Diolch Dymuna Anne, Angharad, Manon, Gwenan, Dyfan a’u teuluoedd ddiolch o galon am pob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan deulu, ffrindiau a chymdogion tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Geraint.

Derbyniwyd £3,000 o roddion er cof am Geraint ac fe’i rhennir rhwng nifer o sefydliadau’r ardal oedd yn agos at ei galon.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

Profedigaeth Ar Fai Sed yn Ysbyty Gwynedd bu farw Jennie Hughes, Bryn Parc, yn 92 mlwydd oed. Bu yn byw gartref oni bai am yr ychydig o fisoedd olaf pan fu raid iddi fynd i gartref Preswyl. Roedd yn berson hoffus a phoblogaidd iawn ac yn rhan o bopeth oedd yn cael ei gynnal yn y pentref ers blynyddoedd lawer iawn. Fe dalwyd teyrnged iddi yn yr angladd gan Pat Jones gan cyfeirio at ei chymeriad a'i diddordeb ym mhopeth. Roedd presenoldeb cymaint yn yr Amlogsgfa yn dyst o'i phoblogrwydd. Yn ei hymadawiad collwyd un a hanai o un o deuluoedd hynaf y pentreflle y treuliodd hithau ei hoes gyfan gan gefnogi ei amrywiol weithgareddau dros y blynyddoedd. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i merch, Nerys, a Hugh Roberts, Rhys, Gari, Lisa a'r hogia, Aled a Gwenllian, a'i hunig chwaer, Alice Eileen Williams, nad yw yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd ac yn cartrefu ym Mhlas Gwilym, Penygroes.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Mai 12fed. Gwyn Hefin Jones oedd llywydd y noson a than ei ofal ef roedd y defosiwn amserol am y Pentecost a'r cyflwyniad i'r siaradwr gwadd, sef J. Elwyn Hughes, Bethel. Testun ei sgwrs oedd "Byw a Bywyd Caradog Prichard". Cafwyd noson arbennig o ddifyr – y cyfan yn cael ei gyflwyno drwy gyfres o ddarluniau – y cyfan yn adlewyrchu yr holl ymchwil manwl a fu i'r testun. Noson i'w gwerthfawrogi yn fawr iawn.

Mae y cyfarfod nesaf yn y Caban ar Fehefin 9fed am 7 o'r gloch. Lowri Prys Roberts fydd y Cadeirydd a'r siaradwr gwadd fydd Dafydd G. Ellis gyda'i sgwrs dan y teitl "Pererin Heddwch" – argraffiadau am George M.L. Davies.

Oedfaon Mehefin am 5 yr hwyr

5: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

12: Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

19: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni

26: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

Diolchiadau Fe ddymunia Nerys, Hugh a'r teulu, ddatgan eu diolch am yr holl gareidgrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc.

Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a phersonol a'r rhoddion caredig iawn tuag at Feddygfa Llanberis.

Gwasanaethau y Capel

Mehefin Sed am 2.00: Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Gweinyddir y Cymun.

Mehefin 19eg am 10.00: Mr Richard Ll. Jones.

Llywydd y mis fydd Eryl Jones gyda Nia Jones wrth yr organ.

Clwb Merched Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Sonia Williams ar nos Iau, Ebrill 28ain, pan ddaeth nifer dda at ei gilydd i ddarganfod pa liw dillad a cholur sydd yn gweddu i ni, fel bod llai o risg ein bod yn gwneud camgymeriad drud wrth brynu dillad! Ffactor bwysig yw lliw y llygaid, yn hytrach na lliw y croen, er enghraifft, a dylid osgoi du plaen neu wyn plaen os yw y croen yn olau. Treuliodd Sonia rhyw bymtheg munud yn rhoi colur i Eirian Griffiths, yn hyfryd a naturiol heb fod y amlwg.

Byddwn yn cloi y tymor gyda swper yn Hebog, Beddgelert, ganol mis Mai, a byddwn yn ail ymgynnull ar y trydydd nos Iau o fis Medi yng Nghanolfan y Capel, gyda Rhiannon Roberts yn Gadeirydd; Nia Jones a Marian Hughes yn gyd-Ysgrifenyddion, a Bethan Iwan yn Drysorydd. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Diolch Dymuna Harriet, Victor, Iona a Dylan ddiolch y ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, sef Eirlys Pritchard, 8 Bryn Gof, Caeathro. Bu Eirlys yng Nghartref Cerrig yr Afon ers tair blynedd wedi i'w iechyd ddirywio, a mawr yw diolch y teulu i staff Cerrig yr Afon am eu gofal tuag at Mam. Diolch un fawr iawn i Eirian am adrodd hanesion digrif am ei nain, ac i Arwyn am ganu 'Abide with Me' ar y cornet. Diolch yn fawr iawn i'r Parch Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth a'i eiriau caredig, ac hefyd i Bethan Iwan, yr organyddes. Casglwyd £450 tuag at Tŷ Gobaith. Ein diolch hefyd i Gwilym Jones a'i fab am drefniadau gofalus a thrylwyr.

Gwellhad Dymunwn wellhad buan i Nia Parry Jones, Bryn Eglwys, sydd wedi cael triniaeth mewn ysbyty yn ddiweddar.

Eisteddfod yr Urdd Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Anna Celyn Evans, Erw Wen, ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Unawd Cerdd Dant, Bl 2 a iau, yn Eisteddfod y Sir, ac i unrhyw un arall sydd yn cystadlu yn y Brifwyl. Da iawn chi.

Tynfa Misol £40: Mark a Linda, Tŷ Newydd (80). £25: Alwen Hughes, Lleifior (20). £15: Joe a Harriet, 5 Erw Wen (56). £5: Wil a Kathy, Cefn Gwern (48).

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Y mis diwethaf bu i ni golli Phillip Jones, aelod gweithgar iawn yn ei gymuned a phawb yn meddwl pwy fuasem yn ei gael i lenwi'r bwlch ar y Cyngor. Da yw cael dweud ein bod wedi gallu llenwi y swydd: yr aelod newydd yw Mr Euryr Llywelyn Roberts, Bron Cynfi, Deiniolen. Dymunwn yn dda iddo a gobeithio y bydd yn barod i roi sylw i'r ardal. Diolch iddo am ymgymryd a'r swydd oherwydd y mae mor anodd cael Cymry i wneud y swyddi yma. Pob dymuniad da iddo. Rhif ei ffôn yw 07917833568.

Angladd Unwaith eto daeth newydd trist pan fu i un o blant yr ardal farw mor sydyn. Cyfeirio yr ydwyf at Miss Morfudd Hughes Jones, Bryn Hyfryd. Un o blant yr ardal oedd Morfudd. Cafodd ei haddysg cynnar yn Ysgol Dinorwig, wedyn Ysgol Ramadeg Brynrefail ac yna Y Coleg Normal, Bangor. Fel ag oedd yn digwydd yr adeg honno aeth yn athrawes i Lerpwl, ac yno y bu hyd nes iddi gymryd ymddeoliad cynnar er mwyn dod adref i edrych ar ôl ei mam. Erbyn hyn yr oedd ei mam yn y cartref ym Mhenisarwaun. Bu i Morfudd roi pob sylw iddi hyd y diwedd a bu yn hynod o ffyddlon iddi.

Wedi marwolaeth ei mam bu yn aelod ffyddlon o gapel Sardis, lle y bu iddi weithio yn dawel a distwr. Pan yn Lerpwl bu iddi wneud ffrindiau hefo Catherine o Gricieth. Byddai y ddwy yn mynd ar eu gwyliau efo'i gilydd ac fe fuont yn gryn ffrindiau hyd y diwedd. Ar ddechrau mis Ebrill bu iddi syrthio tu allan i'r tŷ a bu raid cael

ambiwlans i fynd â hi i Ysbyty Gwynedd pryd y darganfuwyd ei bod wedi torri ei ffêr ar y droed chwith a'i chlun ar y goes dde a chafodd ddwy lawdriniaeth.

Bu imi ymweld â hi y tro olaf ar 18 Ebrill a chawsom sgwrs reit dda a phan yn gadael dywedais y buaswn yn galw i'w gweld ddydd Mercher, a'i geiriau olaf imi oedd, 'Cofia ffonio cyn dod rhag ofn y caff y symud i'r Eryri.' Ond y peth olaf a glywais oedd ei bod wedi ein gadael y diwrnod canlynol. Bu farw yn dawel ar Ebrill 19 yn 78 mlwydd oed.

Gan nad oedd cyflwr Sardis yn addas bu'r gwasanaeth yn gyhoeddus yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar ddydd Iau, Mai Sed ac yn dilyn yn Amlogsgfa Bangor. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Olaf Davies.

Rhoddwyd corff Morfudd yn y bedd ym Macpela, Deiniolen, hefo'i thad a'i mam. Colled fawr i mi yn bersonol a cholled arall i'r ardal. Yr ydym fel Cymry yn mynd yn llai o hyd a neb yn dod yn eu lle.

Morfudd: 'Cwsg yn dawel a gwyn dy fyd.'

Cofion Ein cofion anwylaf at Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis.

Tymor yr Arholiadau A ninnau yn nesu at dymor yr arholiadau yr ydym yn dymuno yn dda i bawb a fydd yn gorfod mynd drwyddynt. Pob lwc i chwi i gyd.

FACHWEN

Ymddiheuriad. Yn y rhifyn diwethaf cafodd rhan o frawddeg o goffhâd Marian Williams, Cwm y Glo gynt, ei chynnwys ar ddechrau soned Norman Closs er cof am ei rieni. Ymddiheuriadau am y nam copïo. Dyma gynnwys y soned y mis hwn fel y dylai fod wedi ymddangos (Golygydd).

Myfyrdod Macpela Deiniolen Sadwrn cyn Sul-y-bloda’ 2016

Mae brenin a’i frenhines yn y gro
Fan hyn ... Deugain mlynedd, fwy neu lai
Rwy’n dod, o barch a chariad yma dro
Iddynt ‘wrando’ nghwyn neu fadda’ ‘mai’

Mae eu lle di-sifl wedi symud peth
Ers dyddiau’r dagrau â’r gorffwyso mawr,
Ac er pan elwais dro yn ôl, mae’r heth
Wedi gyrru’i rhenc un-yn-ôl yn awr ...

Dof ar eu pen-blwydd, y gwylia – a’r Pasg –
A chelyn Dolig i oleuo’i bedd,
Mae gŵyl a’i defod yma’n gwneud y dasg
Yn haws, â’r plygu pen yn dod â hedd

Fel heddiw – â’r môr daffodiliau’n ias:
Balch wyf o’r trysor dan y garreg las.

Norman Closs

Yr Athro Gwyn Thomas Athro, Bardd, Llenor, Cristion 28/04/16

Heddiw daearwyd bonheddwr garai’
wlad, garai’ gydweithiwr;
i’r gwrda y da oedd dwr,
yn ei oes, cymwynaswr.

Crawen o gynefin ‘Stiniog – lle’r Beibl
lle’r bobl wâr – gyfoethog,
lle’r iaith fyw un rugl-rywiog
lle’r hogiau glew erwau’r glog.

Actau fu’i ysgolheictod – mawr ydoedd,
mawr oedai’ fyfyrdod,
byd dirgel Duw, byw a bod,
a’n harfaeth a’n hól – ddarfod.

Chwiliai i galon chwedloniaeth, - cura’i
cariad at farddoniaeth,
yna’n ffres troi syniad ffraeth
a’i nyddu i lunyddiaeth ...

Amgyffred y byd cyffredin a blas
miri i blant a’u chwerthin
ag aria oesau gwerin
yn drai a llanw ‘run drin.

Mabinogi bro’n taro tant – i hoedl
poen a hoen, mynegiant
ni allai ond byw’r ddiwylliant
byd, a’i blaid, drwy blaid ei blant.

Norman Closs

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd.
Ffôn: (872133)

Mynwent Eglwys Crist Llandinorwig Mae Mr Berwyn Jones wedi ail ddechrau torri gwair y fynwent am eleni eto. Diolch am y cyfraniadau sydd wedi dod i law sydd yn ein galluogi i gario ymlaen gyda’r gwaith.

Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau: £10; Mrs Clarice Roberts, Tan yr Henffordd: £10; Bingo Elidir: £100; Mr Derek Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10; Mr Gerallt Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10; Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaen: £20; Mrs Betty Williams, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaen: £10; Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaen: £20; Dr William Munro a Helen Evans Munro: £10; Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron: £10; Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf: £10; Elw 'Noson Lawen' teulu Gibson a'u ffrindiau yn Theatr Bryn Terfel Bangor: £270.

Cymdeithas Undebol Deiniolen Cynhaliwyd swper pentymor y Gymdeithas yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon nos Fawrth, Ebrill 26ain. Cafwyd croeso cynnes a bwyd da unwaith eto a diolch yn fawr i’r merched. Dafydd Iwan oedd y gŵr gwadd ac wedi’r swper cafwyd orig ddiddan yn gwrando arno yn sôn am ei brofiad cynnar o ddechrau canu a chyfansoddi. Rhwng yr atgofion cawsom y fraint o glywed rhai o’r caneuon hynny ganddo. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mr Brian Price.

I gofio Phillip Jones (Phil Wil) Penbryngwyn, Rhos y Marchlyn, Deiniolen

Gylfinir yn ei hiraeth uwch y Rhos,
â’i chri iasol heno’n alaw i’n halaeth.
Hon â’i chân yn ei chyni
a’n geilw at ein gilydd am ennyn
i gorlan y mynydd,
yn ôl trefn oesol y ddefod olaf.
A ninnau, cofiwn heno y gŵr yn hedd y gweryd.
Ei gofio yn ei afiaith, a’r heniaith mor raenus ar ei wefusau.

A heno, daw awel dyner â’i chyffro i ail-ddeffro’r ddôl;
O groth y gwanwyn daw gwyrt y geni –
ail-eni’r hen olyniaeth!

Tony Elliott (Bwlch Cae Mawr)

43 fed
SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYNOGWEN
SADWRN 11 MEHEFIN 2016
Gaeau Rygbi, BETHESDA
Cystadlaethau
Ceffylau / Cwn / Defaid / Dofendod /
Adran Cartref / Ffyn
Adloniant
Hen Gerbydau / Mablgampau
Stondinau
Emlyn ‘Display Team’
Rasus ‘Terrier a Lurcher gyda Dei Banod
Mynediad
Oedolion £4, Pensiynwyr: £2, Plant £1
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda
Nia 01248 602448
nia@sioedyffrynogwen.co.uk
www.sioedyffrynogwen.co.uk

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



Cylch Ti a Fi.

Parti ffarwelio Claire Jones a fu'n arweinydd y Cylch.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant Mis Mai 1. Geraint Parry, Bro Dawel; 2. Siôn Humphreys, Tan y Coed.

Profedigaethau Dymunwn anfon ein cydymdeimlad diffuant at Mary Dwynwen, Tudur a Gareth, Wenllys, Gwêl Fynydd, yn eu profedigaeth lem o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef Meurig Parry, yn 77 mlwydd oed yn dilyn gwaeledd hir. Roedd yn frawd, tad yng nghyfraith hoffus a brawd yng nghyfraith caredig i'w deulu. Bydd colled enfawr i chi i gyd fel teulu a ffrindiau.

Yr un modd dymunwn anfon ein cydymdeimlad llwyr i Gwenan, Cemlyn a'r plant, Nant y Glyn, yn eu profedigaeth fawr hwythau o golli tad, taid a thad yng nghyfraith annwyl, sef Geraint Elis, Bethel.

Bydd colled fawr i chi i gyd ar ei ôl.

Priodas Priodwyd Michael, mab Tony a Beryl Roberts, 21 Glanffynnon, ym Methel yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc.

Ffair Haf Pwyllgor er Budd yr Anabl, Merched y Wawr Mi fydd Ffair Haf yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, fore Gwener, 10fed o Fehefin o 10 y bore hyd 12.00. Bydd yr elw yn mynd i brosiect 'Codi'r To'. Ceisiwch gefnogi y bore.

Hafan Elan Cafwyd cyngerdd hynod o lwyddiannus dan ofal Mrs Mattie Hughes, Llanberis, a'i chôr yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw ac fe drefnwyd lluniaeth ysgafn. Diolch i Mrs Hughes am y pnawn bendigedig.

Mae trip wedi ei drefnu hefyd ar 18 o Fai i fynd i Nant Gwrtheyrn i gael te! Siŵr o fod yn fwynhad i bawb.

Babis **Newydd** Llongyfarchiadau i Elsie Owen, Hafod y Rhos, ar ddod

yn nain i Joseff John, mab bach Dion ac Ellie, Cwm y Glo – pob bendith i chi i gyd.

Hefyd, llongyfarchiadau i Aled Morgan a Llinos Elfryn, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth eu mab, Osian. Pob bendith i chwithau hefyd.

Cydymdeimlwn yn arw â theulu Tyddyn Rhyddid yn dilyn marwolaeth Iestyn Jones, Waunfawr, tad Eurig. Colled fawr i'r teulu i gyd.

Capel y Rhos Cafwyd dau fedydd yn y capel yn ddiweddar gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu.

Ar Ebrill 24ain bedyddiwyd Noa Jac Corbett Williams, mab bach Sam Corbett Williams a Ffion Hughes, 10 Rhes Rhythallt.

Yna ar Fai 1af bedyddiwyd Cian John Parry, mab bach Wayne Parry ac Eirian Pritchard Jones, 4 Sŵn yr Efail. Dymunwn bob bendith ar y ddau deulu ifanc.

Yn ystod y gwasanaeth fore Sul, Mai 1af, braf oedd cael croesawu dau aelod newydd i'r capel. Mae Mr John a Mrs Rhian Ellis wedi symud o'r Waunfawr ac wedi ymgartrefu yn rhif 4 Pen Cae. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn Llanrug ac fel aelodau yng Nghapel y Rhos.

Dymunwn adferiad iechyd buan i Mr John Hugh Griffith, Bigil, Ffordd yr Orsaf, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Cofion gorau atoch. Trefnwyd Taith Noddedig ar gyfer Cymorth Cristnogol gan blant yr Ysgol Sul – o Gapel y Rhos i'r Caban, Brynrefail. Cawn wybod yn y rhifyn nesaf y swm a gasglwyd ond diolch iddynt am eu hymroddiad i achos mor deilwng.

Oedfaon Mehefin

5: Y gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson

12: Ms Karen Owen, Penygroes

19: Parch Marcus Wyn Robinson

26: Mrs Mair Penri, Parc

Ffair Haf

Wythnos 6ed – 11ed Mehefin

Nos Lun - Helfa Drysor Car i gychwyn am 6.00 o'r gloch o'r Ysgol Gynradd

Nos Fawrth – Noson Bingo yn yr Ysgol am 6.30

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Menna, y Llywydd. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad a Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Darllenwyd

Cofnodion 2015-16 ac fe'u cafwyd yn gywir. Bu'n Gyfarfod Blynnyddol hwylus gyda Margaret Parry yn Llywydd ac Eryl yn Is-Lywydd. Cytunodd Nan a Meryl i gydweithio eto fel Ysgrifennydd ac Is-Ysgrifennydd a Pat a Julie yn Drysoryddion. Etholwyd Avril, Iris, Eirian, Mair ac Eirianwen yn aelodau o'r Pwyllgor. Cynrychiolwyr Celf a Chrefft yw Olwen ac Ann Lloyd; Anabl – Margaret ac Eryl; Dysgwyr – Phyllis a Myfanwy; Gohebwy'r y Wasg – Ann Ifans a Mary Roberts a Dosbarthwraig y Wawr yw Olwen.

Dymunwyd yn dda i Meirwen Lloyd fel Llywydd y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, Mai 14eg yn Ysgol Friars.

Dymuna Ann Ifans, Ann Lloyd a Mary Roberts longyfarch Meirwen ar ei llywyddiaeth broffesiynol ac urddasol drwy'r dydd. Roeddem yn hynod falch fod aelod o gangen Llanrug wedi gwneud gwaith mor gaboledig.

Cafwyd arlwy o ddawns a chàn gyda Chwmni Alleni – Drama gydag eitemau clodwiw gan aelodau ieuanc yng ngofal Nia, Arweinydd Côr yr Ynys. Roedd pawb ar eu traed yn eu cymeradwyo. Wedi paned a chyfle i gymdeithasu cafwyd amser i wario ar 'Ategolion at y Galon'. Y cyfanswm hyd yn hyn yw £26,000 a bydd yr 'Ategolion at y Galon' ar werth hyd ddiwedd Awst.

Bu cyfraniad 'Siân a Siân' yn eli i'r galon – cyn aelodau o Ffermwyr Ifanc ac wedi dod at ei gilydd i ddiddori cymdeithasau ers rhyw chwe blynedd. Cafwyd llongddod o 'Ategolion Enwogion', Ymgom mam a merch, Dawnsio Disgo dros 25ain a 'Sortio Cyfrinachau' yn null Jeremy Kyle (Jenny Kyle).

Wedi cinio bwffe ardderchog yn y Ffreutur cafwyd orig addysgiadol a difyr am 'Canmolwn yn awr ein gwagedd enwog' gan Dr Elin Jones. Soniwyd am fenywod fel Sheila Parry, Mary Ann Evans, Catrin o Ferain a Nest Ferch Rhys ap Tewdwr. Mae Archif Menywod Cymru yn ceisio codi proffil hanes menywod yng Nghymru ac yn gweithio i ddiogelu'r dogfennau sy'n adrodd yr hanes hwnnw.

I orffen yr arlwy cafwyd orig yng nghwmni Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym. Roedd y ddeuawd o delyn a gitâr yn

asio'n berffaith a mwynhawyd casgliad bendigedig o ganeuon gwerin Cymru gan y ddwy. Do, bu'n ddiwrnod llwyddiannus a phleserus eto eleni. I gloi'r ŵyl fe ganwyd Cân y Mudiad a hynny gydag arddeliad. Diolch i Meirwen a'r Pwyllgor.

Dymuna'r gangen longyfarch Meirwen ar ei hethol yn Islywydd Cenedlaethol – pob dymuniad da i ti, Meirwen.

Atgoffir pawb y cynhelir Noson Celf a Chrefft yn Neuadd y Groeslon ar Mehefin 27ain am 7.00. Cynhelir Ffair Haf yn Festri Ebeneser, Caernarfon, fore Gwener, Mehefin 10fed o 10-12.00 er budd 'Codi'r To'. Pris mynediad fydd £1. Derbynnir rhoddion a chyfraniadau yn ddiolchgar.

Bydd Bwrdd Gwerthu hefyd yn Ysbyty Gwynedd ym mis Mehefin / Gorffennaf. Atgoffir pawb fod y Mudiad yn Dathlu'r Aur – apelir am luniau, rhaglenni, hanesion o'r blynnyddoedd cynnar ayyb.

Cafwyd Cais Allanol gan Aled Bebb, sy'n gweithio gyda Asiantaeth Cartrefu, Hostel y Santes Fair, Bangor. Mae angen mawr am sachau cysgu, pebyll a sanau.

Gwest-wraig y noson oedd Susan Peters gyda 'Gosod Blodau'. Yn ei ffordd ddihafal ei hun dangosodd Susan ffordd syml o osod 5 gosodiad o flodau a chafwyd argymhellion lu ar sut i edrych ar ôl blodau a phlanhigion. Bu cyfle i brynu basgedi crog a photiau blodau a rhai o'r gosodiadau. Cyflwynwyd basged o flodau i'r raffl a chyflwynwyd hi i Mary gyda chydymdeimlad dwys gan Menna ar golli ei gŵr annwyl, Meurig, brawd yng nghyfraith hoff i Ann, a gofalwr ffyddlon y Sefydliad Coffa yma yn Llanrug. Dymuna Mary ddiolch am eich caredigrwydd. Diolchwyd i Susan am ddod â gwên ac ysgafnder i'n Cyfarfod Blynnyddol. Diolch i Myfanwy, Jennie a Carys am ofalu am y baned.

Ar Mehefin 14eg byddwn yn mynd ar ein Trip Blynnyddol. Dymuna Meryl gael yr arian gan bawb ymlaen llaw os gwelwch yn dda. £18 am ddau gwr a £22 am dri chwrs. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45 ac yna yn codi aelodau ar hyd Ffordd yr Orsaf ac yna Cysgodfan Bws Llanrug, wrth y Sgwâr. Gobeithio y cawn dywydd braf.

Gwario ceiniog



Âr “Eco” ar fin mynd i’r wasg, roedd tri o fechgyn y fro yn cychwyn dringo i gopa Ben Nevis, a’r daith er mwyn codi arian i ddwy elusen: Y Groes Goch ac Ymchwil Cancr. Ond cyn cychwyn dringo, roedd wedi golygu beicio 656 cilomedr i gyrraedd gwaelod y mynydd – a hynny heb symud cam! Oherwydd galwadau gwaith, bu’n rhaid i Iwan Jones, Llanrug, ac Aaron Williams a Leon Williams o Fethel feicio’r cilomedrau i gyd ar feics ymarfer. Bu Iwan, sy’n gweithio yn siop y Co-op yn

Llanrug, yn beicio am rhyw awr a hanner bob dydd cyn dechrau gweithio – a hynny yn y siop. A thra’n beicio, yn gwahodd cwsmeriaid i gyfrannu newid mân i doiled: gwario ceiniog yn llythrennol! Y gobaith yw casglu mil o bunnau – ac mae’r gronfa yn dal ar agor. Gellir galw yn Y Co-op yn Llanrug neu gyfrannu ar safle www.justgiving.com/iwanjones2 Cawn adrodd am y daith i gopa Ben Nevis y mis nesaf.



Eglwys Sant Mihangel
Dymuna aelodau’r Eglwys ddiolch i bawb a gefnogodd eu garddwest ym Mron y Nant ar Fai 14eg. Ymwelodd llawer yn ystod y prynhawn a chafwyd amser difyr iawn yn yr heulwen.

'Am Annwyl Fu – Cu y Cof'
Ar 20fed o Ebrill, wedi brwydr ddewr a di-gŵyn bu farw Hugh Meurig Parry yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, yn 77 mlwydd oed. Un o hogia balch Llanrug oedd Meurig wedi'i eni a'i fagu yn Regent House ac wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn y pentref. Mynychodd Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail a bu yn y Llu Awyr yn Abington a'r Almaen. Bu'n gweithio am flynyddoedd wedyn i'r Gwasanaeth Amaethyddol. Cyfarfu â Mary yn Lôn Bach Awyr, Rhiwlas – cyrchfan ieuencid y pentref ar y pryd. Bu'n briod ffyddlon a gofalus am 52 mlynedd ac yn dad addfwyn i Dwynwen, Tudur a Gareth. Ymfalchiai yn eu llwyddiannau a dotiai ar ei wyrion a'i wyresau, Ffion, Nia, Tomos, Jac, Llewelyn ac Alannah ac roedd yn dad yng nghyfraith, brawd a brawd yng nghyfraith arbennig. Roedd yn Yncl Meu poblogaidd iawn. Bandiau pres a snwcer oedd ei ddiddordebau. Bu'n aelod o fandiau Arian Llanrug a Deiniolen a chafodd wireddu breuddwyd o gael gwrando ar Fand Arian Enwog Black Dyke yn Venue, Llandudno.

Trombôn a'r iwfoniwm oedd ei offerynnau ac addas iawn fu gwrando ar ddatganiad o fand arian ar ddiwrnod ei angladd. Roedd yn aelod o dîm snwcer Llanrug a bu'n weithgar iawn am flynyddoedd fel aelod o Bwyllgor Sefydliad Coffa Llanrug Gair o Ddiolch Dymuna Mary a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu'n gefn iddynt yn ystod gwaeledd Meurig. Cydnabyddir cefnogaeth y teulu a ffrindiau a chymdogion. Mawr ddiolch i bawb ym Meddygfa Llanberis a Llanrug, i Ward Alaw Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, Nyrsys Macmillan a nyrsys Ysbyty Eryri. Gwerthfawrogrir yr ymweliadau, galwadau ffôn, y llu cardiau a'r swm hael o dros £1,500. Trosglwyddir y rhoddion tuag at Ward Alaw ac Ysbyty Eryri. Diolchir yn arbennig i'r Parch Marcus Wyn Robinson am y gwasanaeth cofiadwy ac i Mair am ei gwasanaeth ar yr organ. Diolch o galon i Dylan a Meinir Griffith, Cyfarwyddwyr Angladdau, Tros y Waun, Penisarwaun am y trefniadau trylwyr ac urddasol.



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Nodau Clustiau.

Roedd yr ymateb i luniau'r nodau clustiau yn sydyn ac yn llawn gwybodaeth. O fewn dau ddiwrnod i'r "Eco" ddod o'r wasg, roedd Gwilym Morris Jones, Y Bontnewydd ac Eirwyn Williams, Cwm y Glo wedi galw acw gyda llyfrau nodau clustiau a thoriadau o'r Herald Cymraeg. Eglurodd Eirwyn Williams mai eiddo'r fferm yw nod clust, ac nid eiddo personol perchennog unrhyw fferm. Llyfr Nodau Clustiau Sir Feirionnydd a'r Gororau (hynny yw, gororau Meirionnydd) oedd gan Gwilym Morris Jones, ac ar y flaen-ddalen roedd y nodiadau hyn:

1. Eiddo fferm neu gynefin yw nod clust, ac nid eiddo unrhyw berson.

2. Cyhoedd i'r y nodau fel nodau cydnabyddedig ffermydd a

chynefin – ni ddylid eu newid na'u cyfnewid mewn unrhyw fodd.

3. Disgrifir y ddwy glust fel y gwelir hwy wrth ddilyn y ddafad. Y glust dde a ddisgrifir gyntaf, gan ddechrau o'r blaen.

Diddorol hefyd yw'r enwau gwahanol am y toriadau; dros ddeg ar hugain ohonynt. Yn llyfr Meirionnydd rhestrir yr holl enwau a'u lluniau. Ond a yw'r enwau'n gyffredin i Sir Gaernarfon? Soniodd Eirwyn Williams am doriad o'r enw 'wennol', sef siap cynffon yr aderyn. Does dim son am 'wennol' yn llyfr Meirionnydd. Mae'n ymddangos mai'r un toriad a 'canwair' ydyw. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, mae'n enw sy'n disgrifio dau doriad yn cyfarfod ei gilydd ym mlaen y glust fel 'V'. A ymlaen i ddweud mai 'gwennol' yw'r enw







yn y gogledd, 'cnoead/cnwyad' yn Arfon a 'llysenfforch' yng Nghaerfyrddin. Mae 'cyllellen' yn golygu hollt fechan, a 'sgiwriad' yn golygu toriad ar letraws. Ond pam 'stwmp' a 'stybiau'? Mae 'bwllch' yn hawdd ei ddeall, ond beth yw ystyr 'bwllch dyffdal'? Ac a oes toriadau o Feirionnydd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn Arfon?

A'r toriadau o'r Herald Cymraeg? Roedd y rhai ym meddiant Eirwyn Williams yn rhestru nodau plwyf Llanddeiniolen a phlwyf Llanberis (ac mae'r rheini'n cael eu dangos y mis hwn). Gan Gwilym Morris Jones roedd toriadau'n rhestru nodau Capel Curig, Llandegai, Ysbyty Ifan, Conwy, Dolgarrog a Beddgelert. Teitl y colofnau hyn yn yr Herald oedd 'Nodau Defaid Sir Gaernarfon', a hynny dan olygyddiaeth R.T.Closs, brodor o Nant Peris, ond a fu'n ffermio'n Llanrug. Ei swyddogaeth arall oedd Bugail Teithiol, sef 'barnwr' swyddogol pan fyddai unrhyw anghydfod ynglŷn â

TORIADAU	
1 TORRI BLAEN	2
2 TORRI YN YR HANNER	3
3 CANWAIR HOLLTI	4
4	5
5 HOLLTIN DAIR	6
6 BWLLCH PLYG	7
7 BWLLCH TRI THORIAD	8
8 BWLLCH DAU DORIAD	9
9 BWLLCH CLICIED	10
10 BWLLCH DYFFDAL	11
11 BWLLCH PWNSH M	12
12 STWMP	13
13 SCIW	14
14 CARAI NEU CARAI DAU DORIAD	15
15 CARAI SLENT NEU CARAI UN TORIAD	16
15b CARAI A HOLLTI BON Y GARAI	17
16 TWLL PWNSH DEIMWNT	18
17 TWLL PWNSH (MEILLIONEN)	19
18	20
19 CLUST GYFAN	21
20 DYRNOD CYLLELL	22
21	23
22 CYLLELLEN NEU GILHOLLT BACHIAID	24
23 BACHIAID CAM	25
24 SGWAR	26
25 PICFFORCH	27
26 FFORCH	28
27 CWLLIAD	29
28 CORNPICIN HIR	30
29 CORNPICIN BYR	31
30 GRIS	
31 GRISIAU	

pherchnogaeth dafad grwydrol neu golledig. Swyddog o fewn Heddlu Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am y gwaith erbyn heddiw.

NANT LLANBERIS UCHAF



Cofnod o symud anifeiliaid.

I barhau efo'r thema amaethyddol fugeiliol, cefais hefyd gan Gwilym Morris Jones, weld llyfr yn dyddio o 1940-43 yn cofnodi symudiad anifeiliaid o dan Orchymyn Symudiad Stoc dyddiedig 1925. A chyn bod son am Ddeddf Iaith, diddorol nodi fod popeth yn y llyfr swyddogol hwn gan y Weinyddiaeth Amaeth, yn ddwyieithog.

Yn ôl y Gorchymyn roedd angen cofnodi symudiad pob anifail, gan roi'r dyddiad, nifer a math yr anifail, a lleoliadau'r symudiad. Y person oedd yn cadw'r cofnod yn y llyfr arbennig hwn oedd Robert Owen Pritchard, Tyddyn Mawr, Llanrug. Yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 1940 symudwyd nifer o heffrod ac

wyn i Dyddyn Mawr o Penrhos a Garreg Fawr, Waunfawr; ac o Gae Ifan Gymro, Llanllechid. Yn Awst 1941 mae dwy 'heffar cochion' yn cael eu hanfon o Dyddyn Mawr i'r mart yng Nghaernarfon, ac eto ym Medi, un heffar ddu i 'Sale Bob Parry'. Ym mis Hydref daw 66 o wyn beinw a gwryw o Yr Inn, Capel Curig i Lanrug. Symudiadau heffrod yw'r mwyafrif o'r cofnodion ac y maent yn cael eu gwasgaru i (neu o) nifer o wahanol ffermydd megis Plas Isa, Betws Garmon; Bryn Awel a Thanrallt, Nefyn; Derwin bach, Bryncir; Hyfrydle, Bryngwyn a Dreflan Isa, Waunfawr; a Ffridd, Nantlle.

Pam tybed y daeth y cofnodi i ben ym mis Tachwedd 1943?

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

Llyn Llam Dda – eto!

Gan John Fraser Williams, Tai Bryn Afon, Crawia y daeth mwy o hanes y pwll hwn ar afon Gwyrfai, gan egluro pa mor hawdd yw hi weithiau i gamgymeryd dau le gwahanol o'r un enw! Dyma sut mae'n adrodd yr hanes:

Ers dros hanner canrif bellach, bum yn pysgota yn Afon Seiont. Dechreuais yn y 1960au. Byw yn Llundain oeddwn i, ond byddwn i'n ymweld â Nain yng Nghrawia yn ystod gwyliau ysgol.

Roedd fy Nhad yn dipyn o sgotwr hefyd, ac yn mwynhau hel brithyll yn Llyn Tywod ac yn yr ochr isaf, i lawr yr afon o Bont Crawia. Byddai'n cerdded mor bell â Llyn Harri Parri, wrth fferm o'r enw Glanrafon, ond ni fyddai'n 'sgota'r llyn hwn.

Esboniodd wrtha'i bod aelod o'r teulu wedi boddi yn y llyn, ac roedd fy Nhad am ddangos parch tuag at ei enaid drwy beidio â sgota yno, er bod Llyn Harri Parri yn lle da (weithiau!) am bysgod mawr.

Roedd fy Nhad wedi cael yr hanes gan ei Daid, Robert William Roberts (15/5/1874-5/2/1947). Crydd oedd o, gyda busnes yn Liverpool House, Penisarwaun. Roedd ganddo fo siop yn Neiniolen hefyd, wrth ymyl 'y batri'.

Roedd gan Robert Roberts frawd o'r enw William, a fo oedd wedi boddi yn 15 oed. Gweithio fel gwas bach ar fferm o'r enw Glanrafon oedd o ar y pryd, ac felly doedd fy nhad ddim am bysgota yn agos at y lle.

Symudais i fyw i Arfon yn y 90au, a phenderfynu hel rhywfaint o hanes fy nheulu, gan gynnwys manylion am William Roberts. Roedd gen i ddyddiad y farwolaeth oherwydd bod carreg fedd ym Mynwent Macpelah, Deiniolen.

"Er cof am
WILLIAM
Mab William ac Alice Roberts,
Caeau Ucha Rd, Ebenezer
bu farw Gorph. 7, 1884
yn 15 mlynedd oed"

Es i ati i bori trwy bapurau lleol yn yr Archifdy, a dyma'r canlyniad:
"Yr Herald Cymraeg - Gorphenaf 9, 1884

Boddiad arall - Oddeutu wyth o'r gloch nos Fercher diwethaf, aeth bachgen 15 oed o'r enw William Roberts, o Ebenezer, oedd yn gweithio ar ffarm Glan'rafon Fawr i ymdrochi i afon Gwyrfai mewn lle a elwir Llyn Llam Da, ger Bontnewydd. Neidiodd i le dros ei ben, a boddwyd cyn i gymorth ei gyrhaedd."

A dyna'r hanes. Roedd fy Nhad wedi cael y Glanrafon anghywir! Es i â fy rhieni i ymweld â Glanrafon Fawr ac i gael sbec ar Lyn Llam Dda yn y 90au. Roedd perchenogion y fferm yn ymwybodol o'r hanes.

Mae Llyn Llam Dda yn ddwfn, ond mae un garreg fawr ychydig o dan wyneb y dŵr. Tybed wnaeth William blymio yn hytrach na neidio, anafu ei ben ar y garreg, a boddi o ganlyniad?

Mae'n eironig braidd fod William Roberts wedi marw mewn llyn o'r ffaswn enw.

I ddiweddu ar nodyn mwy positif; cafodd fy Nhad oriau o bleser wedyn, gan hel pysgod Llyn Harri Parri gyda chydwybod clir!

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCY Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574



KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT

Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

**DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R
HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP,
NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw
gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)**

www.kerfoots.com


enquiries@kerfoots.com

Tel: 01766 512256

FFAIR HAF
Ysgol Gynradd Llanrug
Mehefin 11, 1 o'r gloch 2016 June 11th, 1 o'clock



Cynhaliwyd Cystadleuaeth Dadansoddwyr 2016 yn yr Ysgol Cemeg, Prifysgol Bangor yn ddiweddar. Dyma lun o Lia Mitchell, Auryn Merridue ac Osian Edwards yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Ar ôl y bwrlwm o'r gwaith ymarferol yn y labordy, fe ddod y tîm o Ysgol Brynrefail yn 3ydd allan o'r holl ysgolion Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddynt.



Alys Chisolm BI8

Llongyfarchiadau mawr am ennill y wobwr uchaf yng Nghystadleuaeth Mathemateg Cymru. Mi fydd yn derbyn ei gwobr mewn serimoni yn Eisteddfod Cenedlaethol yr Urdd yn y Fflint.



Disgyblion Ysgol Brynrefail a gymerodd ran yn y rownd derfynol “Sporthall Cymru”, allan o’r 40 athletwyr oedd yn cynrychioli Gogledd/Orllewin Cymru 11 yn dod o Ysgol Brynrefail.

Disgyblion sydd wedi llwyddo ac am Gynrychioli Cymru yn yr rownd derfynol “Sporthall UK”.

Blwyddyn 8

Anya Williams, Elain Williams, Natalie Meek, Cai Llwyd, Celt Moss, Gwion Gruffudd, Iwan Griffith.

Blwyddyn 10

Ifan Monsoor, Cai Morgan, Aled Williams.

Llongyarchiadau mawr mawr i Ifan Monsoor a Cai Morgan am ennill Medal efydd yn yr rownd derfynol “Sporthall UK”.



Ysgoloriaethau i ddisgyblion BI 13

Llongyfarchiadau mawr i dri o ddisgyblion blwyddyn 13 sydd wedi ennill gwahanol ysgoloriaethau yn ddiweddar i astudio yn y brifysgol o’u dewis hwy.

Enillodd Richard Efans o Fethel ysgoloriaeth gwerth £2,000 i astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd mae Richard yn astudio Cymraeg, Y Bac, Cerdd a Daearyddiaeth. Pob lwc iddo yn ei arholiadau Lefel A ac yn Aberystwyth ym mis Medi.

Prif ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gwerth £3,000 mae Nia Haf o Lanrug wedi ei ennill. Ar hyn o bryd mae hi’n astudio Drama, Cymraeg a’r BAC. Yn yr Hydref bydd yn cychwyn ei chwrs Cymraeg a Theatr y Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor.

Un arall fydd yn astudio ym Mhrifysgol Bangor y tymor nesaf yw Ceinwen Jones o Ddeiniolen. Enillodd Ceinwen ysgoloriaeth yr adran Gymraeg gwerth £1,000. Mae hi hefyd wedi ennill ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd ar y cyd â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gwerth £1,000 y flwyddyn am dair blynedd. Ar hyn o bryd mae Ceinwen yn astudio Cymraeg, Celf, Addysg Grefyddol a’r BAC.

LLongyfarchiadau i’r tri ohonoch ar eich camp. Rydym yn falch iawn ohonoch a dymuniadau gorau i chi wrth gychwyn ar eich gyrfa mewn Prifysgol y tymor nesaf.



Timau Hoci Blwyddyn 7 a fu’n gydradd 2il a 5ed mewn Twnrnamnt i Ysgolion Eryri a gynhaliwyd ym Mhenygroes Ebrill 20fed.

Llongyfarchiadau

menter fachwen



y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

AGORIAD SWYDDOGOL 'SIOP A CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN'
GWENER 17 MEHEFIN A SADWRN 18 MEHEFIN
ADLONIAINT, SGYRSIAU, ARDDANGOSFEYDD
'GORSAGOEDD RHEILFFYRDD COLL' A 'CAEAU PEL DROED COLL'
CROESO I BAWB.

CERDDED NORDIG

YDA CHI WEDI MEDDWL RHOI CYNNIG I 'CERDDED NORDIG' ERIOED? MAE YN HWYL, YN Ffordd DDA O GYMDEITHASU AC AR YR UN PRYD BYDDWCH YN LLOSGI 20% YN FWY O GALORIAU NAC WRTH GERDDED ARFEROL. BYDD 'CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN' YN CYNNAL SESIWN AM DDIM AR DDYDD IAU 2 MEHEFIN AM 10.00 Y BORE YNG NGHWMNI CAROLINE MONCRIEFF A GARETH ROBERTS, I GYCHWYN O FAES PARCIO'R LAGWNS YN LLANBERIS. MAE CROESO CYNNES I BAWB. DEWCH AM SBORT.

TEITHIAU CERDDED MEHEFIN

IAU 2 MEHEFIN 10.00 yb
SESIWN BLASU 'CERDDED NORDIG' (1 AWR)
GYDA CAROLINE MONCRIEFF A GARETH ROBERTS
CYCHWYN: MAES PARCIO'R LAGWNS YN LLANBERIS
RHAD AC AM DDIM! DIM ANGEN UNRHYW BROFIAD NAG OFFER ARBENNIG.

SUL 12 MEHEFIN 1.30 yp
BETH DDIGWYDDODD I PLAS PENTIR? (2½ milltir)
CYCHWYN: TAFARN Y FAENOL, PENTIR
EITHA HAWDD. LLWYBRAU CYHOEDDUS. SGIDIAU CERDDED.

LLUN 20 MEHEFIN 1.30 yp
ARTISTIAID YN LLANBERIS (2½ milltir)
CYCHWYN: CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD, STRYD FAWR, LLANBERIS
CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.


MAWRTH 28 MEHEFIN 1.30 yp
HANESION GALLT Y FOEL, DINORWIG A MARCHLYN (4 milltir)
CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLLEN
CYMEDROL GYDA GELLYDD. SGIDIAU CERDDED.

menter fachwen



y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



ARDAL GWEINIDOGAETH BRO ERYRI

St Mihangel (Llanrug) St Peris (Nant Peris) St Helen
(Penisa'rwaun)

St Padarn (Llanberis) St Deiniol (Llanddeiniolen) Eglwys
Crist (Llandinorwig,) Deiniolen

Mehefin

Sed	Y Drindod	
09:30	Llanrug	Yr Offeren
09:30	Nant Peris	Yr Offeren
11:00	Llanberis	Yr Offeren
11:00	Penisa'rwaun	Yr Offeren
14:00	Llanddeiniolen	Gosber
15:00	Deiniolen	Yr Offeren

12ed	Y Drindod 3	
09:30	Llanrug	Boreol Weddi
09:30	Nant Peris	Yr Offeren
11:00	Llanberis	Yr Offeren
11:00	Penisa'rwaun	Yr Offeren
14:00	Llanddeiniolen	Yr Offeren
15:00	Deiniolen	Gosber

19eg	Y Drindod 4	
8.00	Llanberis	Yr Offeren
09:30	Llanrug	Yr Offeren
09:30	Nant Peris	Boreol Weddi
11:00	Llanberis	Gwasanaeth Teulu
11:00	Penisa'rwaun	Yr Offeren
14:00	Llanddeiniolen	Gosber
15:00	Deiniolen	Yr Offeren

26ain	Y Drindod 5	
09:30	Llanrug	Boreol Weddi
09:30	Nant Peris	Boreol Weddi
11:00	Llanberis	Yr Offeren
11:00	Penisa'rwaun	Yr Offeren
14:00	Llanddeiniolen	Yr Offeren
15:00	Deiniolen	Gosber

		Gwasanaethau yn ystod yr wythnos	
	1af	08:00	Llanberis Yr Offeren

	7ed	08.00	Nant Peris
--	-----	-------	------------

Boreol Weddi			
8ed	10:00	Dim gwasanaeth	
	14eg	08.00	Nant Peris Boreol

Weddi			
15ed	10:00	Llanberis	Yr Offeren
21ain	08.00	Nant Peris	Boreol Weddi
22ain	10:00	Dim gwasanaeth	
28ain	08.00	Nant Peris	Boreol Weddi
29ain	10:00	Llanberis	Yr Offeren

Y Barchedig Carol Roberts (Ficer)
Y Rheithordy, Ffordd yr Eglwys, Llanberis LL55 4TF 01286
870514 parchcarolroberts@yahoo.co.uk

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Cronfa'r Pensiynwyr
Enillydd y bêl mis Ebrill oedd Mrs Carole Porter gyda rhif 31. Llongyfarchiadau!

Gwellhad Dymunwn wellhad buan i Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, sydd wedi treulio amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn cryfhau yn fuan iawn.

Yn yr un modd anfonwn ein cofion at Mr Dylan Griffith, Tros y Waen, yntau hefyd wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Gŵyl Draws Gwlad
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu yn cystadlu yng Ngŵyl Draws Gwlad y Faenol yn ddiweddar: Rhedodd pawb yn arbennig o dda ar y noson mewn rasys o safon uchel iawn. Da iawn chi!

Gwasanaeth boreol
Croesawyd Mr Andrew Settatree yma fore Gwener, Mai 6ed, i gynnal gwasanaeth gyda'r disgyblion.

Ymweliad - Galwodd Sara Burman (Karate) yma fore Mercher, Mai 18fed, i gynnal sesiwn gyda Bl 5 a 6. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad gyda llawer o ddiolch iddi am alw yn yr ysgol yn achlysurol.

Dymuna'r Pennaeth Catrin Roberts ddatgan ei diolch i blant, rhieni a chymuned Penisarwaen am y croeso mae wedi ei dderbyn yma. Braint ac anrhydedd iddi yw cael gwasanaethu'r ardal hon. Mae'n edrych ymlaen at gael cydweithio a rhanddeiliaid yr ysgol a'r gymuned ehangach dros y cyfnod cyffrous nesaf.

Wythnos o weithgareddau a'r Carnifal

Gorffennaf 3ydd i Gorffennaf 11eg

Dydd Sul, Gorffennaf 3ydd: 6.30yh o'r gloch Gymanfa Ganu yn yr Eglwys

Dydd Llun, Gorffennaf 4ydd: Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Dydd Mawrth, Gorffennaf 5ed: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30yh

Dydd Mercher, Gorffennaf 6ed: Mabolgampau ar gae yr ysgol am 6yh

Dydd Iau, Gorffennaf 7fed: Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Dydd Gwener, Gorffennaf 8fed: Helfa Drysor yn cychwyn o Neuadd yr Eglwys o 6yh - 6.45yh ac yn diweddu mewn gwesty am fwyd.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf

9fed: y Carnifal gyda gorymdaith drwy'r pentref Dydd Llun, Gorffennaf 11eg: Helfa Drysor i blant yn y pentref ac yn diweddu yn y Neuadd gyda pharti.

Ceir mw y fanylion pellach yn y wasg leol ac yn y rhifyn nesa o'r Eco

Bydd rhaglenni yn cael eu dosbarthu ddechrau mis Mehefin.

Pwyllgor Neuadd

Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr oedd 1. Williams Lewis, Penpwlloch; 2. Brenda Richardson, Bryn Hyfryd.

Estynnwyd croeso cynnes i Catrin Lloyd Roberts, Pennaeth Newydd yr Ysgol Gymuned a diolch iddi am ymaelodi a'r Clwb Cant.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Bethan a'r teulu o golli tad i Bethan, tad yng nghyfraith a thaid balch i Aron ac Alex.

Cynhaliwyd 'Miri Mai' nos Iau, Mai 19 a dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson.

Nos Fercher, Mai 18 derbyniwyd cyfraniad hael gan Marathon Eryri a dymunir diolch i Bwyllgor y Marathon am gael bod yn rhan o'r fenter.

Dymunir pob llwyddiant i'r rhai sy'n sefyll yr amrywiol

arholiadau.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf ym mis Medi.

Eisteddfod Bentref 2016

Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 1af am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Bydd yr ymarferion yn cychwyn nos Lun, Mehefin 6ed, o 5-6 o'r gloch.

Ar Mai 26 cynhaliwyd Noson Bingo er budd yr Eisteddfod. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

Cydymdeimlwyd â Carys Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad annwyl Carys, tad yng nghyfraith Dafydd a thaid hoff Sioned, Bethan a Catrin.

Ein cydymdeimlad hefyd ag Ann o golli brawd yng nghyfraith arbennig, gŵr i Mary, tad a thaid amhrisiadwy a ffrind i lawer yn y fro.

Dymunir pob lwc i 'Ensemble' y genethod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cofiwch fod croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni yn Ymarferion yr Eisteddfod.

Sefydliad y Galon Bydd Ann Ifans ac Elizabeth Jones yn dod o amgylch i gasglu at achos y Galon, Mehefin 11 - 24ain. Diolchir ymlaen llaw am eich haelioni a'ch cefnogaeth i Sefydliad y Galon.

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
Eboest- lisa.huw@btinternet.com

RHOSTIO MOCHYN
Cyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

Beicio i Bawb!

Yn gynharach yn y mis, peidiodd y glaw, gan alluogi i bobl hen ac ifanc fwynhau prynhawn o feicio a hwyl yn yr haul yng Nghaernarfon! Daeth ymwelwyr a phobl leol i lawr i'r Cei Llechi ar wahoddiad siop feiciau Beics Menai (rhan o deulu Antur Waunfawr), a chawsant gyfle i roi cynnig ar unrhyw un o'r beiciau oedd yn cael eu harddangos yn y maes parcio.

Trefnwyd y digwyddiad er mwyn cyflwyno fflyd addasol newydd y siop beiciau, sy'n cynnwys beic ochr yn ochr, beiciau tair olwyn tandem, a beiciau tair olwyn trydan a di-trydan ar gyfer plant ac oedolion, a hefyd i godi ymwybyddiaeth am eu prosiect 'Beicio i Bawb' sydd yn cael ei hariannu gan y Gronfa Cymunedau Arfordirol. Sefydlwyd cyrsiau bach fel y gallai pobl brofi eu sgiliau a chael tipyn o hwyl, ac roedd staff o Feics Menai a Get Cycling yn Efrog wrth law i roi awgrymiadau a chynghor. Cafwyd adloniant gan Cimera a'u beiciau un olwyn, ac roedd Awyr Las yno gyda'u masgot, Nel Del i hyrwyddo eu taith feicio elusennol sydd ar y gweill, sef Cylch Beicio. Roedd elusen ieuencid Gisda hefyd wrth law i gynnig cynhaliaeth i'r beicwyr



gyda'u fan fwyd, 'Fan Sgram.' Dywedodd Gemma Rawlings, Rheolwr Datblygu Busnes Beics Menai, "Mae'r prosiect hwn yn agos iawn at ein calonau, gan ei fod yn hyrwyddo cynhwysiad, sydd yn wastad wedi bod ar frig agenda'r Antur. Mae'r beiciau addasol yn ychwanegiad gwych at ein stoc, a bydd yn ein galluogi i roi mwy o ddarpariaeth ar gyfer unigolion gyda galluoedd amrywiol, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fwynhau ein hardal hyfryd! Ac roedd yn wych i weld pobl yn dod at ei gilydd ac yn cael amser da o'r fath ar ddydd Sadwrn, waeth beth yw eu gallu. Gobeithio 'na megis dechrau yw hyn."

Mosaig



Mae Mel Roberts o 'Mosaigau Maizin' a chriw o ferched o Glwb Crefftau Nant Peris wedi bod yn brysyr iawn yn ddiweddar yn creu cyfres o fosaigau i ardd Feddygfa Llanberis, sydd ar agor i bawb fynd i'w fwynhau. Creuwyd y mosaigau i adlewyrchu'r tirwedd lleol a'r dasg oedd i bob un o'r clwb greu un panel trwy ddefnyddio darnau o

grochenwaith lleol. Dywedodd Mel, sydd o Gallt y Foel, ei bod yn falch o'r ymdrech gan bawb, a'i bod wedi mwynhau cyd-weithio gyda grwp mor dalentog a chyfeillgar. Y gobaith nawr yw bydd ysgolion lleol yn cael y cyfle i greu rhagor o fosaigau ar gyfer y paneli.



Blodwen Pen y Gwryd Ken Jones

Ganwyd Blodwen Jane Griffiths yn Llwyn Padarn, Llanberis ar yr 2il o Dachwedd, 1887. Hi oedd yr hynaf o saith o blant i Owen ac Ann Griffiths. Bwthyn bychan un llawr yn hytrach na Thyddyn yw Llwyn Padarn sydd wedi ei leoli ychydig lathenni o Ffordd yr Eglwys yn y pentref. Dengys cyfrifiad 1901 fod yna naw o bobol a phlant yn byw yn y bwthyn sy'n rhyfeddol wrth gysidro ei faint. Adeiladwyd y bwthyn

oddeutu'r flwyddyn 1780 ac mae yna dystiolaeth ar gael sy'n cadarnhau fod y teulu Griffiths wedi trigo yno o'r cychwyn.

Roedd wythdegau a nawdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod hynod o fyrlymus yn Llanberis gyda'r diwydiant llechi ar ei brysaraf. Roedd hwn hefyd yn gyfnod pryd oedd y capeli a'r eglwys yn orlawn a diwylliant yr eisteddfodau ar ei orau.

Mae'n eithaf tebyg i Blodwen gael ei henwi ar ôl opera o'r un enw gan Joseph Parry (1841-1903). Opera ysgafn ydi Blodwen a'r gân enwocaf ohoni yw'r ddeuawd 'Hywel a Blodwen' a ganwyd dros y byd yn ystod yr un cyfnod. Dengys cyfrifiad plwyf Llanberis 1881 fod Joseph Parry a dau o'i feibion yn aros yn y pentref ar y pryd, ac yn ystod eu harhosiad perfformiwyd y gân enwog mewn cyngerdd yn y Llanberis Concert Hall.

Enw merch sy'n deillio o'r gair 'blodyn' a 'gwyn' yw Blodwen a dyma'r enw a roddwyd i blentyn cyntaf anedig teulu bach Llwyn Padarn. Rhoddwyd enwau digon cyffredin y cyfnod sef David, Mary ac Elizabeth ar y plant eraill.

Er i gyfrifiad 1901 nodi fod Blodwen yn byw yn Llwyn Padarn ar y pryd, mae'n ddigon posib ei bod wedi dechrau gweithio ym Mhen y Gwryd yn yr un flwyddyn. Roedd ar y pryd, heb os, ac fel pawb arall yn y pentref, yn eneth uniaith Gymraeg. Fe gafodd addysg elfennol a syml, dybiwn i, yn ysgol y pentref a dyma'r unig fan y byddai wedi dod i gysylltiad â'r iaith Saesneg yn ystod ei phlentynod.

Dim ond un dewis oedd gan y bechgyn ar ôl gadael yr ysgol ar y pryd sef gwaith yn chwarel. Roedd yna fawr o ddewis gan y genethod chwaith, gyda'r mwyafrif yn cael gwaith fel morynion yn yr ardal neu 'gweini' ar lafar gwlad.

Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n nodi'r union flwyddyn y cychwynnodd Blodwen weithio ym Mhen y Gwryd. Sut tybed y cafodd hi waith yn y gwesty gan fod yna bum milltir rhwng ei chartref a Pen y Gwryd, gan gynnwys dringfa serth i gopa bwlch Llanberis? Ymddengys fodd bynnag iddi gychwyn ar ei swydd yn y flwyddyn 1902 pan oedd Pen y Gwryd yn eiddo i berchnogion gwesty'r 'Royal' yng Nghapel Curig. Y rheolwraig ar y pryd oedd Miss Ethel Florence Bloomfield a oedd, yn ôl y sôn, yn hynod o effeithiol ac yn deg a charedig gyda'r gweinyddesau, sef genethod y fro. Roedd yn amlwg fod gan Miss Bloomfield feddwl mawr o Blodwen gan iddi gael ei chyflogi ganddi hi ac, yn y man, ei gŵr Arthur Lockwood yn ystod eu hamser fel tenantiaid, ac yn ddiweddarach, perchnogion Pen y Gwryd.

Pan werthodd Mr a Mrs Lockwood Pen y Gwryd parhaodd Blodwen i weithio fel moryn yn neu cartref cyfagos, Hafody Gwynt. Pan gymerodd Chris a Jo Briggs denantiaeth Pen y Gwryd yn 1947 cawsant nifer o anawsterau i gyflogi staff profiadol a dibynadwy. Roedd hyn yn bennaf oherwydd natur anghysbell y Gwesty a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer staff. Dyma pryd yr awgrymodd Arthur Lockwood i Chris a Jo Briggs eu bod yn cyflogi Blodwen gan ei bod yn gwybod popeth am y Gwesty ac wedi bod yn gweithio yno am bron i 40 mlynedd cyn symud i Hafod y Gwynt. Roedd Blodwen yn ferch 'ifanc' a sionc chwech deg oed pan ymunodd â Chris a Jo, a parhaodd i weithio iddynt hyd at ei hymddeoliad. Cyflogi Blodwen, yn ddiau, oedd y penderfyniad gorau a wnaeth Chris a Jo Briggs yn ystod eu harhosiad hir a llwyddiannus ym Mhen y Gwryd.

Gan fod fy nghartref lai na a chanllath o Llwyn Padarn, mae gennyf gof eithaf da o ymweliadau Blodwen â Llwyn Padarn gan fod ei brawd David a'i chwaer Lizzie yn dal i fyw yno. Mae'r cof ohoni yn dal mor fyw heddiw: roedd hi'n fyr o ran taldra ac yn fân a chwm ar ei throed a'i hwyneb yn welw heb unrhyw fath o golur. Gwisgai ddillad du a phlaen heb fawr o sylw i ffasiwn y cyfnod. Er i Pen y Gwryd ennill enwogrwydd gyda choncro mynydd Everest am y tro cyntaf yn 1953, gellir, yn hawdd, ychwanegu mai un o brif gymeriadau'r ganrif a fu yn y gwesty oedd Miss Blodwen Griffiths. Cyfeiria'r staff a'r ymwelwyr ati

fel Blodwen ar bob achlysur er yma yn Llanberis adnabyddir hi gan y to iau fel Miss Griffiths.

Ymgwymerodd â bron holl ddyletswyddau'r gwesty gan gychwyn, dybiwn i, gyda'r gwaith mwyaf elfennol fel glanhau'r lloffttydd ac ati. Wrth ei gwaith gwisgai ddillad du gyda ffedog fach wen bob amser ac mae llun o ohoni yn yr un dillad yn hawlio lle amlwg yn ystafell Everest y gwesty. Dim ond ychydig o'r hen westeion sydd ar gael bellach i adrodd am ei chymeriad a'i harferion wrth weini ym Mhen y Gwryd. Mae pawb yn gytûn am ei hymroddiad llwyr i'w gwaith ac mai gweini ym Mhen y Gwryd oedd ei phrif bleser mewn bywyd. Roedd hi yn meddu ar gwrteisi traddodiadol y cyfnod ac yn cyfeirio at y gwesteion fel 'sir' a 'madam' gan gyfeirio at y rheolwr fel 'master' ar bob achlysur. Yn y blynyddoedd diweddarach, ac fel yr aelod hynaf o'r staff, roedd hi bob amser yn gofalu yn ddwys am anghenion Mr a Mrs Briggs a'u merch Jane, a byddai yn gwneud hyn hyd yn oed ar ei diwrnod i ffwrdd o'i gwaith. Roedd yn ystyried ei hun yn rhan o'r teulu ac roedd y parch a'r edmygedd a'r hoffter rhyngddynt yn ddwyffordd. Fe fuont yn hynod o garedig ac yn ofalus ohoni hyd at y diwedd.

Wrth holi hwn a llall clywais ei bod yn arfer ganddi bresenoli ei hun wrth y ddesg pan fyddai'r gwesteion yn talu am eu harhosiad cyn gadael, gan holi'n fanwl a oeddent wedi eu plesio gyda'i gwasanaeth. Dyma'r adeg pan dalai pawb gydag arian parod ac roedd Blodwen yn giamstar am fod yn lle iawn ar yr adeg iawn ar gyfer y 'tip'.

Oherwydd lleoliad anghysbell Pen y Gwryd, doedd yna unlle mewn gwirionedd iddi ymlacio a chael seibiant oddi wrth ei gwaith. Doedd yna unlle chwaith i wario arian a gan ei bod wedi cael ei chadw a'i chynnal ym Mhen y Gwryd am dros 70 o flynyddoedd fe dybiwn fod ganddi gelc bach o arian taclus wrth ei chefn. Mae sôn amdani hyd heddiw yn Llanberis yn treulio bob dydd Mercher, sef ei 'day off', ar gyfer bancio ym manc y pentref.

Ni feddylodd erioed am ymddeol a pharhaodd gyda'i gwaith hyd y pen. Pan ddathlodd Blodwen ei phen blwydd yn 80, rhoddodd Mr a Mrs Briggs y canlynol ym mhapur y Times fel gwerthfawrogiad o'i hymroddiad i'r gwesty.

MOUNTAINEERS all over the world will be interested to learn that Blodwen of Pen y Gwryd is 80 years old today. Still going strong.

Derbyniodd nifer o deigramau a negeseuon i'w llongyfarch yn dilyn adroddiad y Times. Treuliodd ei blynyddoedd olaf yn ei chartref genedigol gyda'i chwaer a'i brawd oedrannus. Fe fu farw ar Fawrth Sed, 1973 ac fe'i claddwyd ym medd y teulu ym mynwent Nant Peris.

Llun o Blodwen gan Peter Spencer Coppock sydd yn rhan o gasgliad ffotograffig Pen y Gwryd o'r 1950au a'r 1960au

Cyhoeddir fersiwn Saesneg o'r erthygl hon mewn cyfrol newydd sydd ar y gweill gan Wasg Gomer, sef The Pen y Gwryd Hotel: Tales from the Smoke Room. Bydd y gyfrol ar gael yn eich siop lyfrau leol yn ystod haf 2016. Caiff y gyfrol ei lansio yng ngwesty Pen y Gwryd nos Fercher, 20 Gorffennaf. Am fwy o wybodaeth am y noson neu'r gyfrol cysylltwch â Gwasg Gomer: marchnata@gomer.co.uk neu ffoniwch 01559 363090.

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru 

northwalessigns.com | 07766956673

Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon

Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Y Clwb 300 Enillwyr mis Ebrill oedd £30: Mr Raymond Edwards, Felin y Wig; £20: Mr Alfie Jones, Hafod y Rhos; £10: Mrs Hilda Williams, 8 Croes y waun.

Ysgol Feithrin Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin groesawu Karen Jones o Gaernarfon fel Arweinydd ac rydym yn falch iawn ohoni. Edrychwn ymlaen am weld dalen newydd yn agor yn ein hanes fel Ysgol Feithrin. Mae Mrs Jones, Anti Karen, Anti Kara ac Anti Eryl yn gweithio'n galed iawn i ofalu am y plant bach ac maent yn hapus iawn yn eu cwmni.

Rydym yn gwerthfawrogi yn fawr iawn eich cefnogaeth a gobeithio y byddwch yn dal fel pentrefwyr yn barod i fod yn gefn inni.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Rhodri Siôn (Cadeirydd) neu Irene Roberts (ysgrifennydd).

Babanod Bach Newydd Ganwyd mab, Luca Eryn, i Gerallt a Kerry, Pant Gwyn. Brawd bach i Ethan, Jodie, Ava ac Alfie ac ŵyr i Heulwen ac Alfie, Hafod y Rhug.

Daeth Ann a Morus Elfryn, Coed Gwydryn, yn nain a thaid i Nansi, merch fach a anwyd i Heledd ac Aled. Bydd Lili wrth ei bodd yn helpu i edrych ar ôl ei chwaer fach.

Ganwyd mab i Doctor Siôn Pritchard a'i briod, Elen. Bydd Noa wrth ei fodd yng nghwmni ei frawd bach, Gruffydd Siôn. Daeth Nyrs Carol, Syrjyri

Liverpool House, a'i phriod yn nain a thaid i wyres fach, Elsi Mai, merch i'w mab, Llion a'i bartner, Bethan. Mae Llion a Bethan yn gweithio yn Antur Waunfawr.

Er bod Bryn ac Ann (Heulfryn gynt) wedi cartrefu o'r Waun, maent yn cadw cysylltiad â ni. Yn ystod yr wythnosau diwethaf daethant yn daid a nain i Hari Tudur, mab bach i'w mab, Hywel, a'i bartner Sara. Hefyd rhaid dymuno'n dda i Bryn ar ei ymddeoliad o'i swydd gyda chwmni BT.

Croeso mawr i'r babanod bach i'n plith. Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a mwynhewch y magu a gwyllo'r rhai bach yn datblygu.

Llwyddiant Ar dudalen 'Chwaraeon' rhifyn mis Mai o'r Eco, roedd cofnod o lwyddiant aelodau Clwb Sakura Karate Caernarfon wedi iddynt fod yn cystadlu yng nghystadlaethau Pencampwriaeth Prydain yn Blackpool. Un o'r aelodau a fu'n llwyddiannus oedd Serenna, 9 Bryn Golau, a enillodd fedal efydd yn y gystadleuaeth gwregysau brown a du o dan un ar ddeg oed. Llongyfarchiadau a da iawn chdi, Serenna.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Mai bu Elin Lloyd, Tŷ Awelog, a Gareth Wyn Jones (Bryn Meredydd gynt) yn dathlu cyrraedd eu un ar hugain mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

Dod yn ôl i'r Waun Croeso i Nia Elin, Teras Eilian a Geraint

Michell yn ôl i fyw i'r Waun. Maent wedi prynu tŷ yma ac wrthi'n brysyr yn ei wneud yn gartref clyd iddynt ill dau.

Gyrrwr Rali Geir Llongyfarchiadau i Gethin Jones, 9 Stad Croesywaun, ar ennill ei ddosbarth yn ei rali geir gyntaf gyda'i Vauxhall Nova, yn Stages Harlech ar 1af o Fai. Da iawn ti, Gethin. Camp go fawr.

Swydd Newydd Llongyfarchiadau i Huw Myfyr Griffith, Trefeddyg, ar gael ei benodi i swydd gyda'r cwmni Arwerthwyr Tai, Carter Jonas, ym Mangor.

Mwynhau Dawnsio Mae Tania Griffith, Pine Cottage, sydd yn 9 oed yn aelod yn Ysgol Ddawns Gwynedd ac yn mwynhau ymarfer dawnsio. Yn ystod mis Ebrill eleni teithiodd y dosbarth y mae'n aelod ohono i Lundain i berfformio yn Theatr ei Mawrhydi. Roedd yn siŵr o fod yn brofiad mawr iddi.

Pentref Tawel Bydd pentref Waunfawr yn bentref tawel yn ystod y mis nesaf gan y bydd rhai o'r pentrefwyr yn Ffrainc yn gwyllo'r gemau pêl-droed pwysig ac yn cefnogi Tîm Cymru yn siŵr.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty i Ella a'i mam, Michell, Ger y Ffynnon.

Croeso adref hefyd i Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Da deall eich bod wedi gwella. Hefyd anfonwn ein cofion at Elain

fach, 10 Bryn Golau, wedi iddi anafu ei hwyneb wrth chwarae pêl a syrthio.

Anfonwn ein cofion am wellhad buan a'n dymuniadau da at Mrs Charlotte Evans, sydd yn dderbyn-wraig yn Syrjyri Liverpool House ac at Mr David Greasley, Min Afon, sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Cydymdeimlwn yn ddwys ac Elin a Siôn Emyr, Dôl Gwyrfa, Stad Bodhyfryd yn eu profedigaeth o golli tad Elin a thaid caredig i'r plant.

Cydymdeimlwn ag Eurwyn a Gwenda, Trefeddyg, yn eu profedigaeth o golli tad Eurwyn a thaid annwyl i Huw a Dafydd.

Fore Sul, Mai 8fed, daeth y newyddion trist am farwolaeth Iestyn Jones, Tŷ Ni. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Brenda, ac â'i feibion Iolo ac Eurig a'u teuluoedd yn eu profedigaeth drist.

Eglwys y Waun

Gwasanaethau mis Mehefin

5: Mr John Roberts

12: I'w drefnu

19: Mrs Susan Williams – Oedfa deuluol

26: Cyfarfod Gweddi

NODYN Y rhifyn nesaf o'r Eco (diwedd Mehefin o'r wasg) fydd y rhifyn olaf cyn gwyliau'r haf. Os oes gennych weithgareddau yn ystod yr haf ac eisiau eu hysbysebu yn yr Eco, wel dyma fydd eich cyfle!



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



BOSCH Service
Car Service

AA MOT, A.C.E., Shell

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service

Hyn ac Arall Beth a Wna Un?

Go brin yr af ati, a hynny drwy faglu a thagu, a chael aml i gaff gwag, i ruthro yma ac acw, tra ar lethrau'r Wyddfa, hefo brwsys a photiau paent, hyd yn oed ffrâm dal canfas, yn doman drom ar fychander fy ysgwyddau. Hy! Does rhaid imi o gwbl. Nid arlunydd mohonof! Oes! Neno'r lliwiau amrywiol fyth-newidiol, a berthyn i'r Wyddfa, y mae gen i rywbeth amgenach na ffrâm wag, brws a photyn o baent, sef llyfryn cofnodi hyn ac arall; un ag iddo ffurf râl gwisg bwgan brain! Hwn ydyw'r gwrthrych sydd wastad chwatar oddi mewn i'm poced cot, a thri chwatar allan ohoni. Un fel na fues i rioed, a byddai fy niweddar dad yn fy atgoffa'n bur gyson o'm diffygion, ac y mae gen i gryn lawar ohonynt. Dichon hefyd bellach mai ond fi, yr hyn sy ohonof, a all wneud rhywfaint o synnwyr o'r sgwennu heiroglyffiaid a berthyn i'm llyfr cofnodi. Disgwyliaf beunydd wrth ddrws fy aelwyd am ddyfodiad Eifftwraig neu Eifftiwr â llond eu tafodau o'r iaith Gymraeg i'm llongyfarch am ysgrifen o'r fath!

Fel y dywedais eisoes, y mae na lyfryn cofnodi acw sydd wedi ei lenwi efo barddoniaeth ddoe a heddiw, a phytiau o weithiau barddonol beirdd a gymerodd fel testun y mynydd ucha o ran uchder yng Nghymru. Nid bardd mohonof ond y tro hwn af i'r mynydd hefo'r llyfr cofnodi barddoniaeth ynghlwm dan fy nghesail. Dowch efo fi, da chwi!

Y man cyntaf y gorffwysaf yno, a hynny ar lwybr Beddgelert, ydi lleindir ger y Clawdd Coch / Bwlch y Maes. Darllenaf yn eiddgar-uchel farddoniaeth a ddyfynnwyd yn eu crynswth yn ysgrifau Gruffydd Prisiart, Beddgelert, ac wedi eu sgwennu oddeutu'r flwyddyn 1859, a'u cynnwys, drwy gymorth hael Carneddog, ym misolyn Cymru Rhagfyr (1900):

Y Wyddfa noddfa neuaddfawr,

Hoewfalch ei phen uwch llen llawr ...

Gwaith Robyn Ddu o Hiraddug yn nechrau'r bymthegfed ganrif achan, ac er bloeddio'r llinellau nerth freuder dannedd fy mhen, mynd heibio a wna'r cerddwyr estronol eu hiaith, ac yn ddigon amlwg yr Wyddfa, Snowden, clywais nhw wrthi'n trydar, a oedd wedi mynd â'u bryd!

Prysurais i'r copa,. Ac yno datgan gorau gallwn i, er braidd yn llawn crygni:

Tŵr eryr, tŷ yr eira,

A moel i'r holl ymwelwyr ha'.

Y bardd Penfro piau'r llinellau uchod. Fe'u ceir yn Yr Haul Tachwedd (1013) ac hefyd Y Llan run mis a'r flwyddyn

Hy! ni chymerodd run enaid byw sylw o'r hyn a berfformid.

Prysuero ar fy hyll oddi yno ac at fy hoff eisteddle garegog heb fod ymhell o gaffi enwog a chroesawgar Pen-y-ceunant. Dyma i chwi olygfa o edrych tuag at Lanberis! Nid af ati i ddisgrifio, ewch yno, ond tra yno darlennais yn uchel:

Ar godiad ehedydd, foreuddydd, tawel, glain,

Cychwynnais ar fy ymdaith i ben yr Wyddfa gain.

Ew! dychwelyd roeddwn i! Ta waeth!

G. Parry (Nanmor Wyn) piau'r llinellau a ddyfynnwyd uchod, ac y mae ei gerdd Y Daith i Beddgelert o ben yr Wyddfa' ar gael yn ei chyfanrwydd yng nghylchgrawn Y Frythones Hydref (1891).

Whot's yp gyf? Whot langwij i'w meit be reseiting mor ecseiting?

Llais yn taranu wrthyf wrth fynd heibio.

Ni ddweda i ddim byd mwy! Do! Bu imi fwynhau y baned a'r sgwrs, yng nghiaffi Pen-y-ceunant. Dydw i ddim yn sicr bellach faint o weithia y bues i yno'n cymowta, nag ychwaith faint yn union o amsar a dreuliais i yno, ond mi roedd o'n werth o bob tamad, ac hefyd y cyfle i ddyfod â'm llyfr cofnodi barddoniaeth Gymraeg am yr Wyddfa i'm canlyn! Hwyrach y daw eraill ohonoch chwi efo fi y tro nesa, os bydd un i fannau ar yr Wyddfa! Hwyrach y ffurfir tîm o adroddwyd barddoniaeth Gymraeg a hynny er mwyn dangos i ymwelwyr, a'n cyd-genedl, ran hynny, pa mor gyfoethog ydi hi arnom ni ran diwylliant.

Dafydd Gruffydd Ifan

Un funud fach ...

EWROP

Os yw gwleidyddiaeth yn ddiflas i chi ... os yw pêl droed yn ddiflas i chi ... a gwaeth fyth, os yw gwleidyddiaeth a phêl droed yn ddiflas i chi, bydd mis Mehefin yn annioddefol. Dros yr wythnosau nesaf, bydd yn anodd i chi ddianc rhag y Refferendwm a Rowndiau Terfynol Ewro 2016. Os na ddigwydd rhywbeth hynod annisgwyl, Ewrop gaiff y sylw am y mis cyfan.

O hyn hyd ddiwrnod y Refferendwm bydd pobl yr 'Aros' a'r 'Gadael' yn sôn am yr hyn a gawsom o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Does ond gobeithio y bydd ffeithiau a thrafodaeth deg a synhwylol yn cael mwy o ddylanwad na rhethreg a chelwyddau a bygythion di-sail wrth i bobl benderfynu sut i bleidleisio. Mae'r garfan 'Aros' yn sôn am fanteision perthyn i'r Undeb: 'Mae Prydain yn gryfach, yn fwy diogel ac mewn sefyllfa well. Bydd yr economi yn gryfach, bydd mwy o swyddi, bydd gennym brisiau is, a bydd yn haws mynd i'r afael â bygythiadau byd-eang.'

Mae'r pwyslais yn naturiol ar y budd presennol o berthyn i'r Undeb. Ond nid peth diweddar yw'r cysylltiad â'r cyfandir: mae'n hŷn o lawer na dyddiau'r gwyliau rhad a chaneuon Eurovision a phêl droed Champions League! Bum can mlynedd yn ôl, er enghraifft, gwelwyd y Diwygiad Protestannaidd, a oedd wedi ymledu i bob rhan o'r cyfandir, yn dylanwadu'n fawr ar grefydd a diwylliant Cymru. O'r cyfandir y daeth y symudiad crefyddol hwn a arweiniodd ymhlith pethau eraill at gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Does dim disgwyl i neb sôn am bethau felly yng nghyd-destun y Refferendwm, wrth gwrs; ond mae'r holl sôn am Ewrop, gobeithio, yn atgoffa'r eglwysi o'r hyn a gafwyd o'r cyfeiriad hwnnw yn y gorffennol.

Calon y Diwygiad Protestannaidd oedd yr argyhoeddiad fod ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist yn gwbl sylfaenol i'r bywyd Cristnogol. Daeth y neges hon â gobaith a llawenydd i filoedd ar filoedd o bobl dros genedlaethau lawer. Roedd yr Efengyl a'r Ffydd Gristnogol wedi cyrraedd Cymru ganrifoedd cyn hynny, wrth gwrs. Daeth yma, mae'n debyg, mor bell yn ôl â'r flwyddyn 200, ganrifoedd cyn dyddiau Dewi Sant hyd yn oed. Ond roedd cyfnod y Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn un o gyfnodau mwyaf llewyrchus y Ffydd yn ein gwlad.

A hithau'n ddiwedd Mai, pwy a wŷr beth fydd canlyniad y Refferendwm? A phwy a wŷr beth a ddaw o'n tîm pêl droed erbyn dechrau Gorffennaf? Yn ddelfrydol, bydd Prydain a Chymru'n dal i mewn, a Lloegr allan! Beth bynnag a ddigwydd, bydd rhywrai'n dathlu. Ond pwy bynnag fyddant, a faint bynnag y dathlu, go brin y bydd pobl ymhen pum can mlynedd yn dal i gofio, ac yn dal i ddolch am yr hyn a ddigwydd yn Ewrop yr haf hwn.

JOHN PRITCHARD



**Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 Mlynedd**

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



Ar ben arall i'r lein

Dwi'n crafu fy mhen am rywbeth sylweddol i ddweud am bysgota y tymor yma, heblaw am rhyw ychydig ddyddiau arbennig i rai sy'n dal ati ar Lyn Nantlle a rhyw ychydig oriau 'run fath ar y Seiont yn ystod dechrau Mawrth a Ebrill. Er bod yn haul wedi bod yn gwenu mae'r gwynt yn dal i ddod o'r gogledd, gwynt dan gynffon mae rhai yn ei alw. Ond cynffon neu beidio mi fydd yn rhaid iddo newid ei lwybr i'r de orllewin cyn i bethau wella'n sylweddol. Ac, fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio, dydw i dim gyda chymaint o awydd i chwipio'r dŵr ac eira a rhew o'm cwmpas - sôn am swnun 'de.

Er bod fy oriau ar y glannau wedi bod yn brin iawn, dwi ddim wedi bod yn gwastraffu fy amser, nac esgeuluso materion o fyd y pysg. A dyma be sydd wedi bod yn fy nghadw yn brysur. Yn ddiweddar mae cysylltiad wedi dod â Llwyn Iorwg, Clwt y Bont, ond i ni, hen griw Deiniolen, adnabyddir y lle fel hen dŷ gweinidog Capel Ysgoldy. Be dynnodd fy sylw oedd W.J. Gruffydd yn ei Hen Atgofion pan yn cyfeirio at y genweiriwr a'r Parch Owen Griffith Owen, 'Alafon,' a fu'n bugeilio'r eglwys o 1883 hyd at ei farwolaeth yn 1916.

Mae WJG yn cyfeirio at eisteddfodau, yn enwedig eisteddfod Capel Bethel, a'r beirniaid a fyddai'n dod yn eu tro. 'Roedd rhai yn fedrus yn gallu trefnu diwrnod o feirniadu ar y Sadwrn ac yna Sul llawn o bregethu. Stem foddhaol dros ben. Ond roedd un nad oedd ganddo ddiddordeb mewn manteisio ar hyn, a hwn oedd Eifion Wyn. Fel hyn mae yn adrodd:

'Clywais amdano (Eifion Wyn) yn mynd i bregethu i un o eglwysi Meirionnydd ar fore Sul braf yn yr haf. Yr oedd wedi rhwymo ei enwair ar ei feic gan arfaethu diwrnod o bysgota ar ei daith yn ôl dydd Llun; ond wrth groesi'r afon ar ei ffordd fore Sul, sylwodd fod y brithyll yn codi'n rhyfeddol. Edrychodd o'i gwmpas; nid oedd neb yn y golwg ac, yn llechwraidd euog, dechreuodd gymalu ei enwair er mwyn cael un tafliad cyn symud ymlaen. Cafodd fachiad ar y bwrw cyntaf, a bachiad wedyn ar yr ail Wel, i dorri'r stori'n fyr, ni chaed un olwg ar y pregethwr yn y capel y bore hwnnw na'r prynhawn na'r nos, a bu'n rhaid troi'r oedfa yn gyfarfod gweddi. Ond yn rhywle ar dorlan Prysor, yn y tawelwch mawr Sabothol, yr oedd rhywun yn ei ddillad goreu yn cael yr hwyl syfrdanol, honno na ddaw i ddyn ond un waith mewn oes. Hwyl y Rhyfyg Mawr, ac yn taflu llygaid o ddychryn dros ei ysgwydd wrth fwrw ei bluen, a llenwi ei fasged â brithylliaid tu hwnt i ddychymyg pysgodawl y mwyaf celwyddog o deulu Issac Walton. Adroddais y stori wrth Alafon, yntau'n enweiriwr selog.

'Tad,' meddai'r hen gyfaill, 'yr oedd o'n rhyfygu'n ofnadwy ... Ond bydd haws iddo gael maddeuant nag am lawer o bethau, mae Duw'n deall pysgotwyr.'

'Yndi,' meddwn innau. 'fe fu'n byw am flynyddoedd hefo nhw.'

Yn ogystal mae gennyf ddiddordeb mewn rhoi at ei gilydd bob math o farddoniaeth o bob sut sy'n ymwneud a physgota neu gyda chyfeiriad at 'sgota, yn enwedig yn yr hen fro yma. O bosib un o'r

sonedau mwyaf adnabyddus yw Llyn y Gadair gan T.H. Parry-Williams. Ond drwy bori drwy un o ddau lyfr a gyhoeddwyd gan Alafon sef Cathlau'r Bore a'r Prydnawn sylweddolias fod Llyn y Gadair arall, a'r tro yma drwy lygaid pysgotwr brwd. Oes eisiau gofyn 'prun yw'r ffefryn?

Llyn y Gadair

I gael y meddwl caeth yn rhydd,
A'r galon brudd i gywair,
Effeithiol iawn yw diwrnod gwyn
Ar hyfryd Lyn y Gadair.
Nid yw ei faint, nid yw ei liw,
yn cymell i'w ymylon;
Ond nid oes lonnach llyn i'w gael,
Na'r un mwy hael ei galon.

I'w lonni, ar Y Gadair fawr
Y fore wawr orphwysa;
A gwel'd ei hunan yn ei ddrych
Bob dydd ga'r uchel Wyddfa.
Ei fyrdd melynfrych bysg o'i fewn
yn hoenus ewn chwaraeant,
Ac weithiau i'r pysgotwr tlawd
Eu nwyfus wawd ddangosant.

Cael awel rydd ar ddiwrnod llon
I ddeffro'i donnau lawer,
Cael llithro dros ei fynwes fwyn
Heb gofio cwyn na phryder;
Cael cwmni cyfaill cerddgar fryd,
A medrus gyda'i enwair -
Mor ddifyr, ddifyr ydyw hyn
Ar hyfryd Lyn y Gadair!

Os am ddifyrrwch pellach - beth am ddilyn Eifion Wyn a Camp Llyn yr Onnen. Neu Cynan ar y Teifi, dim awydd darllen yna rhowch y CD ymlaen i gael gwledd o Hogiau'r Wyddfa wedi ei rhoi ar gân - efallai mai yn y fan yma y bydd Arwel yn trio ei orau glas i ddal samwn! Neu ceisiwch CD - Cyn Cau'r Drws gan Aled Lloyd Davies ble mae Meibion Menlli yn ardderchog gyda'u addasiad o Teifi ac yn eu cyfeiriad at Dewi Emrys. Mae'n debyg ei fod 'e wedi cael helfa. A peidiwch anghofio'r goffadwriaeth ardderchog i Jim Parry gan Rol Williams.

Felly 'da chi'n gweld - Mae llawer mwy i bysgota na dal pysgod!!

A cyn gorffen mi fuaswn yn ddiolchgar dros ben os oes posib cael benthgylun o Alafon i'w gopio yn rhywle yng Nghlwt y Bont neu Ddeiniolen.

Huw Price Hughes

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

RHEDEG MYNYDD



Prif gystadleuaeth y mis diwethaf oedd Pencampwriaeth Siroedd Prydain a oedd yn rhan o Ras Moel Eilio, gyda bron i 300 o redwyr yn cymryd rhan, a hynny ar un o ddyddiau poethaf y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd cystadlu brwd, gyda rhedwyr mynydd gorau gwledydd yr Alban, Lloegr a Chymru'n rhedeg, ond roedd nifer o redwyr lleol yn amlwg, ac yn dangos fod y gamp wedi ei hen sefydlu yn yr ardal bellach. Roedd Mathew Roberts (Llanberis), Gareth Hughes (Penisarwaun) a Dyfed Thomas (Llanrug) ymhlith yr hanner cant gorau, a Gareth yn rhan o dim Gogledd Cymru a ddaeth yn ail ym Mhencampwriaeth Prydain, a'r tim cyntaf yng Nghymru. Roedd Miranda Grant (Llanberis) a Lou Beetlestone (Rhiwlas) yn aelodau o dim merched Gogledd Cymru ddaeth yn bedwerydd ym Mhencampwriaeth Prydain a'r cyntaf yng Nghymru.

Mae Cyfres Rasys Nos Fawrth yn mynd o nerth i nerth, a dros gant o redwyr yn cystadlu'n wythnosol. Mae pump o'r rasy eisoes wedi bod, ac erbyn i'r "Eco" eich cyrraedd bydd Ras Aber hefyd wedi ei chynnal. Gyda phump ras yn parhau, mae'r gyfres yn dal yn agored, ac anodd darogan pwy fydd yn ennill y gwahanol gategoriau. Bydd y gyfres yn diweddau yn Llanberis gyda Ras Bach Moel Eilio, ond cyn hynny rhaid ymweld â'r Gogarth, Penmaenmawr a Rhyd-ddu.

Mae rasy y plant hefyd yn boblogaidd, gyda nifer o hogia a genod lleol yn agos i'r brig, sy'n argoeli'n dda am ddyfodol rhedeg mynydd yn y parthau hyn.

CWPAN YSGOLION CYMRU -15



Ymgyrch y Bêl – pobl Gwynedd yn pasio’r Bale dros Gymru

Dros yr wythnosau diwethaf mae hunaniaith, y Fenter Iaith sy’n gweithredu yng Ngwynedd wedi bod yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol Y Bêl – pasio’r Bale dros Gymru i gasglu negeseuon o gefnogaeth a llofnodion i’w cyflwyno i dim Pêl-droed Cymru, mewn cinio dathlu wrth iddynt baratoi ar gyfer pencampwriaeth yr Ewro 2016.

Mae 23 pêl, un gan pob Menter Iaith, wedi bod yn crwydro Cymru dros yr wythnosau diwethaf gyda phum mil ar hugain o negeseuon o gefnogaeth yn cael eu nodi ar y peli. wch hoffi’n tudalen Facebook (mewnbynnu manylion Facebook y fenter) ein dilyn ar Twitter ac Instagram (manylion cyfrifon eich menter). Hefyd cofiwch chwilio am #CmonCymru a #DiolchCymru i weld negeseuon o bob cwr o’r wlad.

Y TYMOR YN RHYGNU YMLAEN

Gyda’r rhifyn hwn bellach yn ei wely mae gêm bwysig draw yn Llanberis gyda Llanrug yn ymweld. Bu’n gyfnod gwahanol iawn i’r ddau glwb yn ddiweddar. Aeth Llanrug ar rediad da iawn i’w danfon i safle’r pedwar uchaf. Dim syndod i’w rheolwr Mark Jatt dderbyn tlws rheolwr y mis. Ni chwaraeodd Lanrug ond pum gêm yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr, a thybed os oedd y diffyg gemau yma wedi amharu ar lif eu tymor. Mwy o gemau, mwy o drefn efallai.

Nid felly i’r Darans. Maent ar rediad hesb yn bresennol a gyda pedair gêm gynghrair yn weddill mae angen pwyntiau i beidio disgyn i’r ail adran. Un elfen bositif yw fod carfan ifanc yno sy’n ennill profiad, ac mae’r ail dim yn llawn o fechgyn ifanc talentog wedi cael tymor llwyddianus yng nghyngair yr ail dimau. Gobeithio felly bydd y clwb yn aros yn yr adran gyntaf.

Llithro i ganol y tabl wnaeth Waunfawr hefyd. Wedi buddugoliaethau da yn erbyn Bodedern ac Aberffraw, collwyd yn erbyn Teigrod Porthaethwy o 1-0 yn rownd derfynol Tarian Bob Owen ar yr Oval.

ANGEN Y BRASSO

Glywsoch chi’r canu yn y Wellington a’r Penbont. Bu cryn ddathlu yn y ddwy dafarn wedi diwedd glo rhyfeddol i Gynghrair Pwl Caernarfon a’r Cylch. Sôn am gnoi ewinedd, gyda’r bencampwriaeth yn y fantol hyd y gemau olaf.

Penbont yn gyntaf. Iddynt hwy aeth y brif wobwr, pencampwyr Adran 1. Ond, daeth ambell i wobwr unigol hefyd. Am y bumed flwyddyn – tipyn o gamp – ennillodd Barri Jones y gystadleuaeth unigol. Yn ail yn y gystadleuaeth daeth Iwan Owen o Benbont. Derbyniodd Iwan Williams dlws yr Adran Dyblau. Roedd eisiau trol go gref i gludo’r holl dlysau draw i’r Wellington yn Neiniolen.

Y tim ‘A’ i ddechrau. Hwy oedd yn ail i Penbont yn y brif adran. Ond hwy gipiodd gystadleuaeth Cwpan yr Adran. Hwy hefyd ennillodd Tarian Goffa John Whitehead.

Cyflwynwyd y tlws ar gyfer perfformiwr gorau y tymor yn y brif adran i Kevin Roberts o Wellington ‘A’. Ennillydd Cwpan y Capten yn y brif adran oedd Daniel Fletcher.

Daeth cwpan bwysig hefyd i Wellington ‘B’ gan mai hwy oedd pencampwyr yr ail adran.

Daeth sawl tlws arall i dimau bro’r Eco. Er bod yn ‘ddi-gartref’ am ran o’r tymor gorffennodd tim y Bedol, Bethel yn ail yn yr ail adran. Daeth tlws Cwpan y Capten i’r ail adran hefyd i Fethel gyda Jonathan Davies yn fuddugol. Yn ail iddo roedd Andrew Owen o’r Prince of Wales, Llanberis.

Cipiodd clwb Social, Llanberis Gwpan Coffa Noel Owen. I’r Padarn Lake aeth y tlws am berfformiad gorau’r tymor yn yr ail adran gyda Albert Bedlow yn gwenu.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Fawr o wên ar y Cofis diwedd y tymor yn amlwg. Gyda Modurdy London , Cwm y Glo yn noddi efallai bydd rhaid ail enwi’r gynghrair tymor nesaf i gynghrair Cwm a’r Cylch.

Ras yr Wyddfa: Nosweithiau hyfforddi ar gyfer y rasys plant o 7 i 18 oed.

Bydd nosweithiau hyfforddi yn cychwyn ar nos Lun, Mehefin 6ed, ond cofrestru’n unig fydd ar y noson honno. Bydd angen i riant ddod gyda’r plentyn er mwyn llenwi’r ffurflen ganiatad. Ni chaniateir i blentyn gymryd rhan yn y sesiynnau hyfforddi heb y caniatad hwn. Y gost fydd £2.00 am gofrestru.

Rhoddir cerdyn stampio i bob plentyn. Cyfrifoldeb y plentyn fydd dod a’r cerdyn gyda nhw i bob sesiwn ymarfer er mwyn dangos eu presenoldeb. Rhaid mynychu 3 sesiwn cyn cael cystadlu.

Amserlen nosweithiau Llun.

Mehefin 6ed Cofrestru yn unig – angen rhiant gyda’r plentyn.

Mehefin 13eg; 20fed; 27ain; Gorffennaf 4ydd; Sesiynnau hyfforddi am 6.00 o’r gloch yn y cae wrth y Ganolfan, Llanberis.

Gorffennaf 11eg: Sesiwn hyfforddi fel yr uchod, ond mae angen i BAWB fynychu.

Nos Iau Gorffennaf 14eg Noson y Rasys.

Bydd pob sesiwn hyfforddi yn gorffen am 7.00 o’r gloch, a bydd angen casglu’r plant yn brydlon o’r Ganolfan.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyffandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk



Mae'n debyg i nifer o gefnogwyr pêl-droed fy oed i ddilyn Man. Utd. oherwydd fod trychineb Munich wedi digwydd ar gyfnod dylanwadol o'n bywydau. Draw yn Uwchmynydd, Llŷn roedd camp tîm arbennig Spurs a gipiodd y 'dwbwl' yn 1961 yn cael cryn ddylanwad ar y Sion Williams wyth oed. Sion Bethel ydyw bellach ers sawl blwyddyn ond arhosodd y teyrngarwch ynddo a'i fab Owain Sion a hyd yn oed Mair ei wraig.

Hwn oedd y tîm rhyfeddol dan reolaeth Bill Nicholson a chapteiniaeth Danny Blanchflower. Tîm ac amddiffynwyr cadarn fel Maurice Norman a Dave McKay. Y paswyr celfydd fel Blanchflower a John White, a'r tarw o ymosodwr Bobby Smith. Yr oedd tri Chymro yn y garfan – yr asgellwyr Cliff Jones a Terry Medwin a'r cefnwr chwith Mel Hopkins.

Roedd y tri yn aelodau o garfan Cymru a ymddangosodd yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn Sweden yn 1958.

Roedd Cliff Jones yn ddewis cyntaf di-amheuol. Brwydr oedd y crys rhif 7 rhwng Terry Medwin a Terry Dyson. Dyson chwaraeodd, a sgorio'r ail gôl wrth i Spurs gipio'r gwpan wrth guro Caerlŷr o 2-0.

Trist cofnodi mai dim ond Cliff Jones a Dyson – y ddau yn eu wyth degau – sydd ar ôl o'r cyfnod euraidd yma yn hanes y Spurs. Gwefri i Sion ac Owain yn ddiweddar oedd cyfarfod y ddau. Roedd noson wedi ei threfnu yng Nghlwb Rygbi Bedwas yn Ne Cymru gan gangen y De o gefnogwyr Spurs. Cafwyd noson hwyliog o ail fyw yr 'oes aur'. Sôn am gemau, cymeriadau a chymharu gyda'r oes fodern a'i bwl diddiwedd mae'n ymddangos o arian. Ambell i gyfeiriad hefyd at obeithion Cymru draw yn Ffrainc yr haf hwn, a bwrw golwg yn ôl ar 1958.

'Noson hwyliog iawn, yn llawn atgofion' meddai Sion. Cynhaliwyd y noson yn fuan ar ôl brwydr Stamford Bridge a welodd Spurs a Chelsea yn cael eu dirwyo'n drwm am eu hagweddau amhroffesiynol. I ddod roedd y stid go iawn yn Newcastle o 5-1. Yn waeth i gefnogwyr Spurs, galluogodd hyn i'r arch elynion Arsenal i orffen uwchben Spurs.

Ond, barn y gwybodusion yw fod cryn dalent yng ngharfan ifanc Spurs, a bod gobaith am lwyddiant yn y tymhorau i ddod. Cawn weld.

E Tlws Yr Eco 2016 W


Yr wythnos gyntaf yng Nghorffennaf amdani eleni. Ac oherwydd newid yn oedran cystadleuthau Cynghreiriau Gwryfai, dan 8 oed a dan 10 oed fydd hi eleni.

Yr un fydd y rheolau:

- carfan o 10 chwaraewr,.
- Dan 8 oed – chwech aelod ym mhob tîm.
- Dan 10 oed – saith aelod ym mhob tîm.
- Y gost cofrestru - £10 y tîm.

Y lleoliadau yw: Dan 8 oed yn Neiniolen ar nos Iau, Gorffennaf 7ed am 6pm.

Dan 10 oed ar Gae'r Ddôl, Llanberis ar nos Wener, Gorffennaf 8 am 6pm. Diolch i'r clybiau am eu croeso parod i lwyfanu'r gornestau. Welan ni chi yno.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Chwaraeon

Pencampwyr Ysgolion Cymru -15



CWPAN YSGOLION CYMRU -15 Maes y Seintiau Newydd, Croesoswallt,
Dydd Sul, Mai 8ed. 2016

YSGOL BRYNREFAIL 3 YSGOL Y BONTFAEN 1

Unwaith eto, mae pêl-droedwyr Ysgol Brynrefail wedi codi tlws Ysgolion Cymru. Yn ddi-os bellach mae record yr Ysgol yn y gwahanol oedrannau yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion llawer mwy eu maint. Y flwyddyn hon bu'n rhaid brwydro'n galed, a thystiodd nifer i mi fod safon y bêl-droed yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Maelor (Wrecsam) a'r gêm derfynol yn erbyn Y Bontfaen o safon uchel iawn. Gobeithio felly fod y gemau wedi denu sylw y dewiswyr cenedlaethol at dalentau'r chwaraewyr. Ac mae'r sgowtiaid yno. Er enghraifft roedd capten Y Bontfaen wedi derbyn cytundeb i arwyddo i dim Caerlyr yr haf hwn. Am symudiad i fachgen ieuanc. Ble roedd sgowtiaid Caerdydd ac Abertawe tybed?

A chyfleusterau. Chwaraewyd y ddwy gêm olaf ar faes 3G y Seintiau Newydd. Mae gan Maelor a'r Bontfaen feysydd cyffelyb yn eu hysgolion. Byd arall!

Ond, yn ôl i'r rownd derfynol. Fel erioed roedd y cefnogwyr wedi dilyn y tim. Yno hefyd i gynorthwyo Nidian Hughes a Gareth Davies roedd 'Alex Ferguson' Brynrefail sef Phil Holland. Tri a gwaed Brynrefs yn llifo drwyddynt. Mae'r hogiau am i mi ddiolch i'r tri am eu arweiniad a'r holl sesiynau ymarfer drwy'r tymor. Diolch hefyd i glybiau'r ardal am eu gwaith di-flino gyda'r hogiau. Buasai Twm John wrth ei fodd. Diolch hefyd i Stephen Edwards (cyn-ddisgybl) o Gwmni Cread am ei noddiant hael gyda kit yr hogiau. Os ydych yn edrych fel tim, fe chwaraewch fel tim. Ac yn ddi-os ysbryd y tim arbennig yma gariodd y dydd drwy sawl cyfnod anodd yn ystod y gemau.

Yn fuan, daeth yn amlwg fod dau dim safonol iawn yn ymgiprys. Pasio safonol, a thaclo di-gyfaddawd. Bydd cryn sôn am Gethin Trefor yn ad-ennill y bêl gyda'i ben – tra'n gorwedd ar ei hyd ar lawr! Ymroddiad, hwnna ydy o!

Brynrefail gafodd y gôl gyntaf bwysig, er cychwyniad cryf gan y Bontfaen. Ond pan ddaeth y cyfle roedd Harri Tulliver yn ddigon hyderus i rwydo. Yna daeth cyfnod allweddol y gêm â'r deheuwr yn pwysu'n drwm. Amddiffyn Brynrefail yn gadarn ond yna torri allan yn gyflym. Taclo allweddol yn cael ei hennill yng nghanol y cae a rhyddhau'r bêl yn sydyn i Thomas Collins. Dyma sgoriwr o reddf, a dyma enghraifft o'i allu. Derbyn y bêl rhyw 25 llath allan, curo dyn, codi ei ben a tharannu'r bêl i gornel uchaf y rhwyd o ochr y blwch

cosbi. Gôl i godi ysbryd unrhyw dim, ond sgor anodd ydy 2-0.

Yn ôl daeth y Bontfaen, a chyfnod gorau'r gêm iddynt. Gwobrwywyd hwy gyda gôl.

Gyda Huw Gwyn yn arwain canol y cae drwy esiampl di-gyfaddawd, daliodd amddiffyn Brynrefail. 2-1 gyda phum munud i fynd. Yna, daeth un o'r eiliadau yna sy'n coroni gêm a thymor. Cic gornel i Brynrefail o'r ochr dde. Y bêl yn cael ei phenio allan i gyfeiriad Callum O'Donnell ar ochr y blwch cosb. Tair ar ddeg yw Callum – un o'r pedwar yn y garfan ym M19, felly yno flwyddyn nesaf hefyd. Ond am aeddfedrwydd.

Gyda'r bêl dal yn yr awyr tarodd Callum fellten i gornel uchel gôl y Bontfaen. Y gôl dyngedfenol. Gyda'r teclynau modern diolch fyth mae record ohoni, ac roedd taid balch iawn ym Mhost Bethel yn barod i'w dangos! Gôl i ennill unrhyw gêm, unrhyw gystadleuaeth. Boddwyd Callum druan dan fôr o grysau coch. Daeth y chwib olaf a chriw o fechgyn hapus â balchder yn eu hysgol a'u bro ddaeth a chwpan cenedlaethol arall adref.

Yr oedd y tim yma hefyd wedi ennill cwpan Eryri drwy guro Ysgol Ardudwy.

Dwbwl da i gloriannu tymor i'w gofio, ac anrheg ymddeol braf i gyn-beldroediwr o safon, Eifion Jones. Dai awn hogia'.

Y DAITH I'R ROWND DERFYNNOL

Llangefni	0	Brynrefail	6
Brynrefail	4	Amlwch	0
Syr Huw Owen	1	Brynrefail	4
Ardudwy	3	Brynrefail	5
Brynrefail	3	Coedcae (Llanelli)	2
Brynrefail	3	Maelor 3 (Brynrefail 3-1 ar giciau o'r smoty'n.)	
Brynrefail	3	Y Bontfaen	1

CARFAN BRYNREFAIL

Iolo Roberts, Cai Edwards, Aled Pritchard, Aled Williams, Cai Morgan, Gethin Trefor, Harri Tulliver, Thomas Collins(capt.), Huw Gwyn, Ifan Mansoor, Owain Jones, Adam Fletcher, Callum O'Donnell, Rhydian Williams, Nathan Hughes, Sam Williams, Gethin Tomlinson, Ben Rowlands.